

Arolwg Defnydd Llety
Cymru

Adroddiad Blynyddol
2012



Cynnwys

Crynodeb Gweithredol.....	1
Prif ganfyddiadau	15
Gwestai	16
Tai Llety a Sefydliadau Gwely a Brecwast.....	31
Pob Llety â Gwasanaeth	44
Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd	44
Bythynnod a Fflatiau Hunanddarpar	46
Cartrefi Gwyliu Carafán a Chabannau	59
Parciau Carafanau Teithio a Gwersylla	63
Hostelau a Thai Bynciau	66
Atodiad 1: Gwestai	71
Atodiad 2: Tai Llety a Sefydliadau Gwely a Brecwast	74
Atodiad 3: Hunanddarpar	77

Crynodeb Gweithredol


Cynhaliwyd arolwg defnydd ymysg darparwyr llety gwesty gyda graddiad yn ddi-dor ers 1972 i fonitro lefelau'r galw am ystafelloedd a gwelyau gwestai yng Nghymru. I gydymffurfio gyda gofynion Cyfarwydddeb yr Undeb Ewropeaidd ar Ystadegau Twristiaeth, cafodd yr arolwg ei ymestyn yn 1997 i gynnwys pob llety â gwasanaeth yn cynnwys tai llety a sefydliadau gwely a brecwast, yn ogystal â llety â gwasanaeth heb ei raddio.

Cynhaliwyd yr arolwg hunanddarpar mewn gwahanol fformatau ers 1987. Mae'r arolwg yn cynnwys llety hunanddarpar, cartrefi gwyliau carafán a pharciau carafanau teithiol a gwersylla. Yn ychwanegol, yn 2008, cafodd hostelau a thai bynciau hefyd eu cynnwys o fewn cwmpas yr arolwg.


Gwestai

Yn 2011 roedd cyfradd gyfartalog defnydd gwelyau yn 44% a chyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd yn 59%. Mae'r ddwy gyfradd yr un fath â'r rhai a gofnodwyd yn 2007, gyda chynnydd bychan ar gyfradd 2011 ar gyfer defnydd gwelyau (42% yn 2011). Mae hyn yn parhau'r cysondeb a gofnodwyd am y cyfraddau hyn dros y blynyddoedd, gyda defnydd gwelyau yn yr ystod 41% i 44% a defnydd ystafelloedd yn yr ystod 55% i 59% ers 2002.

Ffigur -1 Gwestai - Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd - Cyfartaleddau Blynyddol (%)



Cyflwynir y cyfraddau misol ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd ynghyd â'r cyfartaleddau blynyddol a gofnodwyd yn y sector gwestai yn 2012 yn Ffigur 1-2 ar y dudalen nesaf.

Ffigur 1-2 - Gwestai - Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd – 2012 (%)


Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd cyfraddau defnydd a adroddwyd yn 2012 yn adlewyrchu natur dymhorol y sector gwestai. Roedd cyfradd gyfartalog defnydd gwelyau yn 26% yn Ionawr 2012 cyn codi i frig o 58% ym mis Awst a gostwng i 37% ym mis Tachwedd. Yn yr un modd, roedd cyfradd gyfartalog defnydd ystafelloedd yn uwch yn ystod misoedd yr haf, gyda chyfraddau o 66% i 72% wedi'u cofnodi rhwng Mehefin a Medi, gyda'r gyfradd isaf wedi'i chofnodi yn Ionawr (40%).

Mae gwybodaeth ar ddefnydd misol Gwestai ar dudalennau 16-17.

Cyfraddau Defnydd Rhanbarthol

Mae Ffigur 1-3 islaw'n cyflwyno cyfraddau cyfartalog blynyddol ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer pob rhanbarth yng Nghymru

Ffigur 1-3 - Gwestai - Cyfartaledd Blynyddol yn ôl Rhanbarthau Cymru – 2012 (%)



Sefydliadau yn y Gogledd a gofnododd y gyfradd gyfartalog uchaf ar gyfer defnydd gwelyau yn 2012 (49%), gyda gwestai yn y Canolbarth yn cofnodi cyfradd o 42% a gwestai yn y De Orllewin yn cofnodi cyfradd o 39%. Yn 2011, cofnododd gwestai yn y De Ddwyrain gyfartaledd blynyddol o 38%, oedd bedwar pwynt canran yn is na'r hyn a gofnodwyd ar gyfer y rhanbarth yma yn 2010 (42%). Cynyddodd y gyfradd ar gyfer y rhanbarth yma eto yn 2012 i 41%.

Roedd mwy o amrywiad rhwng y rhanbarthau wrth eu dadansoddi yn ôl eu cyfradd gyfartalog ar gyfer defnydd ystafelloedd yn 2012, yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol. Cofnododd sefydliadau yn y Gogledd a'r De Ddwyrain gyfraddau cyfartalog tebyg ar gyfer defnydd ystafelloedd o 62% a 61% yn yr un drefn, tra cofnododd sefydliadau yn y De Orllewin gyfartaledd blynyddol o 50% a'r rhai yn y Canolbarth gyfartaledd blynyddol o 65%.

Mae gwytodaeth ar ddefnydd rhanbarthol o Westai ar gael ar dudalennau 18-19.

Canran Gwesteion Tramor

Fel y disgwyliid, roedd defnydd tramor uchaf yn ystod y prif dymor twristiaeth. Cofnodwyd cyfartaledd o 6% yng Ngorffennaf a 7% yn Awst 2012. Er mai ym mis Tachwedd y cofnodwyd y canran isaf drwy gydol y flwyddyn (2%), roedd y gyfradd a gofnodwyd ar gyfer Mehefin hefyd yn isel ar 3%. Cofnodwyd tymheredd is na'r cyfartaledd a llai o oriau heulwen ynghyd â glawiad uwch na'r cyfartaledd ar gyfer nifer o fisoedd yr haf yn 2012 yng Nghymru, gyda glawiad neilltuol o uchel yn ystod Mehefin. Cyfradd gyfartalog flynyddol gwesteion tramor oedd 4%.

Mae mwy o wybodaeth ar ddefnydd tramor Gwestai ar dudalennau 19-21.

Canran Gwesteion Busnes

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd y canran o westeion tramor ar ei uchaf ar ddechrau a diwedd y flwyddyn, tueddiad i wrthwyneb yr un ar gyfer cyfraddau defnydd cyffredinol, ond yn un sydd wedi sefydlu ar gyfer cyrchfannau'r Deyrnas Unedig. Roedd y gyfran o westeion busnes a gofnodwyd yn Ionawr 2012 yn 27%, cyfradd a ostyngodd i'w hisafbwynt yn Awst a Medi 2012 (6%) cyn cynyddu i 12% Rhagfyr 2012. Mae'n debygol bod y gostyngiad rhwng Mawrth ac Ebrill 2012 (11% i 7%) yn adlewyrchu dechrau'r prif dymor twristiaeth.

Bu cyfradd gyfartalog flynyddol gwesteion busnes yn gyffredinol yn gostwng ers 2004. Mae cyfradd 2012 o 9% yn ostyngiad o bum pwynt canran ar gyfradd 2011 o 14% a'r gyfradd gyfartalog flynyddol isaf ar gyfer defnydd busnes a gofnodwyd ers 2003. Pan y'i dadansoddir yn ôl mis, cofnodwyd gostyngiad ar gyfer y rhan fwyaf o fisoedd y flwyddyn, yn neilltuol yn ystod Mawrth (19% yn 2011 i 11% yn 2012) a Thachwedd (21% i 11%), y ddau yn fisoedd ysgwydd pan fo defnydd busnes yn tueddu i fod yn uwch ac mae hynny fel arfer yn hybu cyfradd gyffredinol flynyddol defnydd busnes. Ni wnaeth nifer o sefydliadau a gyflwynodd ddata yn 2011 wneud hynny yn 2012, ac mae hynny wedi cyfrannu at y gostyngiadau a gofnodwyd ar gyfer y gyfradd yma yn 2012.

Mae mwy o wybodaeth ar gyfraddau defnydd busnes gwestai ar dudalennau 22-23.

Defnydd yn ôl maint Gwesty

Yn gyffredinol, mae arolygon defnydd dros y blynyddoedd wedi cofnodi cydberthyniad cadarnhaol rhwng maint gwesty a chyfraddau defnydd gwelyau. Mae hyn rywfaint yn llai amlwg yn 2012 ar gyfer cyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd gwelyau a gofnodwyd, gyda'r cyfraddau uchaf wedi'u cofnodi gan sefydliadau gyda 26 ystafell neu fwy (yn yr ystod 45%-46% yn 2012). Mae'r cydberthyniad cyffredinol rhwng maint gwestai a chyfraddau defnydd yn gliriach ar gyfer y cyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd ystafelloedd a gofnodwyd. Cofnododd gwestai gyda rhwng 51 a 100 ystafell gyfradd gyfartalog defnydd gwelyau o 65% a rhai gyda dros 100 ystafell gyfradd o 64% o gymharu â 49% ymysg rhai gyda 4 i 10 ystafell.

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, gallai nifer o ffactorau fod wedi cyfrannu at y cydberthyniad cadarnhaol gyffredinol yma. Mae gwestai mwy yn tueddu i fod ar agor drwy'r flwyddyn ac yn fwy tebygol o fod yn rhagweithiol wrth farchnata eu sefydliadau. Hefyd, mae llawer o'r rhain mewn dinasoedd a threfi mawr, gan eu gwneud yn fwy tebygol o fod â gwesteion busnes yn defnyddio ystafelloedd sengl.

Cofnodwyd y cynnydd cyfartalog mwyaf mewn defnydd cyfartalog ystafelloedd ar gyfer gwestai gyda rhwng 26 a 50 ystafell, gyda chyfradd 2012 o 62% chwe phwynt canran yn uwch na'r gyfradd a gofnodwyd ar gyfer y sefydliadau hyn yn 2011 (56%) ac yn gyfartal â'r hyn a gofnodwyd yn 2008.

Mae mwy o wybodaeth ar ddefnydd gwestai yn ôl maint ar dudalennau 24-25.

Defnydd yn ôl Tariff

Unwaith eto, roedd perthynas gyffredinol gadarnhaol rhwng y tariff a godwyd a lefelau defnydd gwestai yn 2010. Gwestai'n codi £50 neu fwy gofnododd y cyfraddau blynyddol cyfartalog uchaf ar gyfer defnydd gwelyau (46% ar gyfer rhai'n codi £50-£59.99), cyfradd sydd bum pwynt canran yn uwch na'r hyn a gofnodwyd ar gyfer sefydliadau'n codi £30-£39.99. Sefydliadau yn y band tariff uchaf hefyd gofnododd y gyfradd flynyddol gyfartalog uchaf ar gyfer defnydd ystafelloedd, a oedd ar 61% yn ddeuddeg pwynt canran yn uwch na'r gyfradd a gofnodwyd gan sefydliadau yn y categori £30-£39.99. Mae'n debygol i westai yn y band tariff uchaf ddenu cyfran uwch o westeion busnes yn defnyddio ystafelloedd defnydd sengl.

Ar gyfer gwestai'n codi £40-£49.99 a'r rhai'n codi £60 neu fwy, parhaodd cyfraddau blynyddol cyfartalog defnydd ystafelloedd yn debyg yn 2012 i'r rhai a gofnodwyd yn 2011. Er 2009, mae cyfradd gyfartalog defnydd blynyddol ar gyfer sefydliadau'n codi £30-£39.99 wedi cynyddu flwyddyn ar flwyddyn gyda chyfradd 2012 o 49% dri phwynt canran yn uwch na chyfradd 2011 o 46%. Cofnododd y rhai'n codi £50-£59.99 ostyngiad yn 2012 o dri phwynt canran (60% i 57%), fodd bynnag, mae'r gyfradd yma'n parhau'n uwch na chyfradd 2009 o 54%.

Mae mwy o wybodaeth ar ddefnydd gwestai yn ôl tariff ar dudalennau 25-26.

Defnydd yn ôl Lleoliad

Cafodd cyfraddau defnydd eu dadansoddi yn ôl lleoliad y gwesty - mewn dinas/tref fawr, tref fach, glan môr neu wledig/pentref.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, sefydliadau mewn dinasoedd a threfi mawr gofnododd y gyfradd flynyddol gyfartalog uchaf ar gyfer defnydd yn 2012 (64%). Fel yn 2011, sefydliadau mewn ardaloedd glan môr gofnododd y gyfradd gyfartalog flynyddol uchaf ar gyfer defnydd gwelyau, gan gofnodi cyfradd o 47% ar gyfer y sefydliadau hyn yn 2012. Cofnodwyd y cyfraddau cyfartalog blynyddol isaf ar gyfer defnydd gwelyau ar gyfer gwestai mewn trefi bach a lleoliadau gwledig (41%), tra cofnodwyd y gyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd isaf ar gyfer gwestai mewn lleoliadau gwledig/pentref (53%). Yn 2011, roedd y gwahaniaethau mwyaf rhwng cyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer sefydliadau mewn trefi bach a dinasoedd/trefi mawr (ugain pwynt canran yr un).

Yn dilyn gostyngiadau yn 2011, cynyddodd cyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd ystafelloedd ar gyfer sefydliadau mewn dinasoedd/trefi mawr a threfi bach yn 2012 (62% i 64% a 59% i 61% yn yr un drefn). Ar y llaw arall, cofnododd sefydliadau mewn lleoliadau glan môr a gwledig/pentref gyfraddau cyfartalog blynyddol ar gyfer defnydd gwelyau oedd yr un fath yn union â'r rhai a gofnodwyd ar gyfer yr ardaloedd hyn yn 2010 (59% a 53% yn yr un drefn).

Mae mwy o wybodaeth am ddefnydd gwestai yn ôl lleoliad ar dudalen 27.

Defnydd yn ôl Graddiad

Ers 1999, cafodd cyfraddau defnydd ar gyfer gwestai eu dadansoddi yn ôl eu graddiad dan y Cynllun Graddio Seren a weinyddir gan Croeso Cymru.

Fel mewn nifer o flynyddoedd blaenorol, gwestai heb eu graddio yng nghynllun graddio Croeso Cymru gofnododd y cyfraddau cyfartalog blynyddol isaf, gyda chyfradd gyfartalog flynyddol ar gyfer defnydd

gwelyau o 39% a chyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd o 53% wedi'i gofnodi ar gyfer y sefydliadau hyn yn 2010. Gwestai gyda'r graddiad seren uchaf gofnododd y cyfartaleddau blynyddol uchaf, gyda chyfraddau o 59% ar gyfer cyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd gwelyau a 77% ar gyfer defnydd ystafelloedd.


Mae mwy o wybodaeth am ddefnydd gwestai yn ôl graddiad ar dudalennau 28-29.

Tai Llety a Sefydliadau Gwely a Brecwast

Defnydd Cyfartalog Blynyddol Gwelyau ac Ystafelloedd

Yn gyffredinol, bu cyfraddau defnydd Tai Llety a sefydliadau Gwely a Brecwast yn gostwng ers 2009. Parhaodd cyfradd flynyddol defnydd gwelyau i ostwng ychydig yn 2012 i 27%, y gyfradd isaf a gofnodwyd dros y degawd diwethaf. Er bod cyfradd cyfartalog blynyddol defnydd ystafelloedd ar gyfer 2012 hefyd ar ei bwynt isaf dros y cyfnod yma, mae wedi parhau'n gyson â chyfradd 2011 o 34%.


Ffigur 1-4 - Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast - Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd - Cyfartaleddau Blynyddol (%)



Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd

Cofnodir cyfraddau misol defnydd gwelyau ac ystafelloedd ynghyd â'r cyfartaleddau blynyddol a gofnodwyd yn y sectorau tai llety a gwely a brecwast yn 2012 yn Ffigur 1-5 islaw.

Ffigur 1-5 - Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast - Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd - 2012 (%)




Fel mewn blynyddoedd blaenorol, parhaodd natur dymhorol y sector Tai Llety a Gwely a Brecwast yn amlwg yn 2012 gyda chyfraddau cyfartalog defnydd gwelyau ar eu huchaf yn y prif dymor twristiaeth (Mai i Fedi). Roedd lefelau defnydd gwelyau yn amrywio o 10% yn Ionawr i frig o 46% yn Awst cyn gostwng i 10% yn Rhagfyr. Dilynodd lefelau defnydd ystafelloedd batrwm tebyg gan ddringo o 14% yn Ionawr i 53% yn Awst cyn gostwng i 13% yn Rhagfyr 2012.

Mae mwy o wybodaeth am gyfraddau defnydd misol Tai Llety/sefydliadau Gwely a Brecwast ar dudalennau 31-32.

Cyfraddau Defnydd Rhanbarthol

Ffigur 1-6 - Tai Llety/sefydliadau Gwely a Brecwast - Cyfartaledd Blynyddol yn ôl rhanbarthau Cymru – 2012 (%)



Roedd cyfraddau cyfartalog blynyddol uchaf defnydd gwelyau ac ystafelloedd yn rhanbarth y De Orllewin yn 2012 (35% a 40% yn yr un drefn). Cofnododd sefydliadau yn y Gogledd gyfradd gyfartalog flynyddol defnydd gwelyau o 25%, yr un gyfradd ag a gofnodwyd gan sefydliadau yn y Canolbarth ac ychydig yn uwch na'r hyn a gofnodwyd ar gyfer rhai yn y De Ddwyrain (23%). Roedd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd ar gyfer y De Orllewin (40%) naw pwynt canran yn uwch na'r cyfraddau a gofnodwyd gan sefydliadau yn y Gogledd a'r De Ddwyrain (31% yn y ddau achos).

Cofnodwyd cynnydd yn y gyfradd gyfartalog flynyddol ar gyfer defnydd ystafelloedd ar gyfer sefydliadau yn y De, yn arbennig yn rhanbarth y De Ddwyrain. Yn 2011, roedd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd y De Ddwyrain (32%) 13 pwynt canran yn is nag yn 2010 ac ar ei gyfradd isaf ers 2001. Yn 2012, cynyddodd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd ar gyfer y rhanbarth yma gan chwe pwynt canran i 31%. Dylid cadw mewn cof fod maint sampl rhanbarth y De Ddwyrain ar gyfer defnydd busnes yn isel ac na wnaeth pawb o'r rhai a anfonodd ddata defnydd busnes wneud hynny bob mis, felly mae angen gofal wrth drin y canlyniadau.

Mae mwy o wybodaeth am gyfraddau defnydd rhanbarthol Tai Llety/sefydliadau Gwely a Brecwast ar dudalennau 32-33.

Canran Gwesteion Tramor

Fel yn y rhan fwyaf o flynyddoedd blaenorol, yn ystod 2012, roedd y canran o westeion tramor ar ei uchaf yn ystod cyfnod Mehefin i Fedi yn 2012 gyda chyfraddau o 13% i 17% wedi'u cofnodi, er i 2012 gael dechrau cryf yn nhermau'r gyfran o westeion o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig (11% yn Ionawr a 12%

yn Chwefror 2012). Gostyngodd y canran o westeion tramor o 11% ym Medi 2012 i gyfradd gyson o 6% ar gyfer Hydref, Tachwedd a Rhagfyr 2012. Cyfradd gyfartalog flynyddol nosweithiau gwely tramor 2012 oedd 11%.

Mae mwy o wybodaeth am ddefnydd tramor Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast ar dudalennau 33-34.

Defnydd yn ôl Maint Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast

Fel yr adroddwyd yn flaenorol ar gyfer y sector yma ac ar gyfer gwestai, byddai'n ymddangos fod perthynas gadarnhaol rhwng cyfraddau defnydd a maint sefydliadau. Cofnododd sefydliadau gyda 4-10 ystafell gyfraddau cyfartalog blynyddol ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd o 30% a 36% yn yr un drefn, o gymharu gyda 23% a 29% yn yr un drefn ymysg rhai gyda 1-3 ystafell. Mae'r defnydd uwch ymysg y sefydliadau hyn yn debygol o fod yn ganlyniad nifer o ffactorau yn cynnwys y ffaith fod sefydliadau mwy yn debycach o fod ar agor drwy'r flwyddyn a hefyd yn fwy tebygol o ddenu gwesteion busnes.

Er i gyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd barhau'n uwch i sefydliadau mwy (4-10 ystafell) nag ar gyfer rhai gyda llai o ystafelloedd yn 2012, cofnododd y sefydliadau hyn ostyngiad bychan yn eu cyfradd gyfartalog flynyddol ar gyfer defnydd ystafelloedd (37% yn 2011 i 36% yn 2012). O gymharu, cynyddodd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd ar gyfer rhai gyda rhwng 1 a 3 ystafell dros yr un cyfnod o 27% i 29%.

Mae mwy o wybodaeth ar dudalennau 37-38 ar ddefnydd Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast yn ôl maint.

Defnydd yn ôl Tariff

Er yr ymddangosai mewn blynyddoedd blaenorol fod cydberthyniad cadarnhaol rhwng lefelau tariff a defnydd, roedd mwy o debygrwydd yn y cyfraddau a gofnodwyd am y ddau fand tariff uwch a ddangosir islaw yn 2012. Wrth gymharu gyda'r rhai'n codi £20-£29.99, roedd cyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd gwelyau ar gyfer y rhai'n codi £30 wyth neu naw pwynt canran yn uwch, a chyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd ystafelloedd saith pwynt canran yn uwch yn 2012.

Rhwng 2011 a 2012, parhaodd cyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd ystafelloedd ar gyfer sefydliadau'n codi £30-£39.99 a'r rhai'n codi £40-£49.99 yn wastad (y ddau yn 35%). Yn dilyn gostyngiad flwyddyn-ar-flwyddyn mewn cyfraddau rhwng 2006 a 2011, cofnododd y rhai'n codi £20-£39.99 gynydd o bedwar pwynt canran, a ddaeth â chyfradd gyfartalog flynyddol y sefydliadau hyn i 28% yn 2012.

Mae mwy o wybodaeth am ddefnydd Tai Llety, Sefydliadau Gwely a Brecwast yn ôl tarif ar dudalennau 38-39 f.

Defnydd yn ôl Lleoliad

Yn 2010 a 2011, roedd y cyfraddau defnydd uchaf mewn ardaloedd glan môr, fodd bynnag roedd y cyfraddau a gofnodwyd ar gyfer sefydliadau yn yr ardaloedd hyn (30% defnydd cyfartalog blynyddol gwelyau, 36% defnydd cyfartalog blynyddol ystafelloedd) yn debycach i'r rhai ar gyfer ardaloedd eraill yn 2012. Cofnododd rhai mewn dinasoedd/trefi mawr gyfraddau cyfartalog blynyddol o 32% ar gyfer

gwelyau a 45% ar gyfer ystafelloedd, yn debyg i'r hynny a gofnodwyd ar gyfer trefi bach (30% a 43% yn yr un drefn) ond yn uwch nag ar gyfer sefydliadau mewn lleoliadau gwledig/pentref (26% a 31% yn yr un drefn).

Mae mwy o wybodaeth ar dudalen 40 am ddefnydd Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast yn ôl lleoliad.

Defnydd yn ôl Graddiad

Roedd cydberthyniad cadarnhaol rhwng lefel defnydd a graddiad, gyda sefydliadau heb raddiad yn cofnodi'r cyfraddau cyfartalog blynyddol isaf ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd o 17 a 19 pwynt canran yn yr un drefn. Cofnododd sefydliadau gyda graddiad 5 seren gyfradd gyfartalog flynyddol is ar gyfer defnydd gwelyau na rhai gyda 4 seren (28% a 31% yn yr un drefn), yn ogystal â chyfradd gyfartalog flynyddol is ar gyfer defnydd ystafelloedd (32% a 37% yn yr un drefn).

Rhwng 2011 a 2012, cofnodwyd y gostyngiad mwyaf ar gyfer sefydliadau heb raddiad, gyda chyfradd o 24% yn 2011 a 19% yn 2012 ar gyfer y sefydliadau hyn. Cofnododd rhai gyda graddiad 3 seren a hefyd rai gyda graddiad 4 seren gynydd bach yn eu cyfraddau cyfartalog blynyddol ar gyfer defnydd ystafelloedd (un pwynt canran yr un), a pharhaodd y gyfradd yma i ostwng ar gyfer sefydliadau 5 seren yn 2012 (35% yn 2011 i 32% yn 2012).

Mae mwy o wybodaeth ar ddefnydd Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast yn ôl graddiad ar dudalennau 41-42.

Pob Llety â Gwasanaeth

Parhaodd cyfradd gyfartalog defnydd blynyddol gwelyau ar gyfer pob llety â gwasanaeth yn gyson ar 38% rhwng 2008 a 2011, gyda chynnydd bach yn 2012 yn dod â'r gyfradd yma i 39%. Y gyfradd gyfartalog flynyddol ar gyfer defnydd ystafelloedd oedd 52%, cyfradd a gofnodwyd ar gyfer pob llety â gwasanaeth ers 2008.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae ffactorau tymhorol eto'n amlwg yn y cyfraddau defnydd misol ar gyfer yr holl lety â gwasanaeth. Rhwng Mai a Medi, roedd cyfradd gyfartalog defnydd gwelyau yn yr ystod 42% - 55%, a chyfradd gyfartalog defnydd ystafelloedd yn yr ystod 57% - 67% yn yr un cyfnod.

Roedd canran cyfartalog blynyddol gwesteion tramor yn gyson o amgylch 7% rhwng 2008 a 2011, gyda gostyngiad bach yn 2012 i 6%. Bu peth amrywiad pan y'u dadansoddwyd yn ôl misoedd unigol dros y pum mlynedd ddiwethaf, yn arbennig y tu allan i'r prif dymor twristiaeth.

Mae manylion pellach am gyfraddau defnydd pob llety â gwasanaeth ar dudalennau 43-44.


Llety hunanddarpar

Bythynnod a Fflatiau

Defnydd Misol Unedau

Mae Ffigur 1-7 islaw'n cyflwyno cyfraddau blynyddol defnydd ar gyfer 2012 ar gyfer gweithredwyr annibynnol ac asiantaethau.

Ffigur 1-7- Defnydd Misol Unedau – Bythynnod a Fflatiau



Mae cyfradd fisol defnydd unedau ar gyfer pob eiddo yn 2012, fel mewn blynyddoedd blaenorol, yn amrywio'n sylweddol ar hyd y flwyddyn, gan ddangos natur dymhorol y sector. Cofnodwyd cyfradd gyfartalog defnydd misol o 32% ar gyfer Ionawr 2012, ffigur a gynyddodd i 81% yn Awst cyn gostwng i 36% yn Nhachwedd a 38% yn Rhagfyr.

Tabl 1-1- Defnydd Misol Unedau – Bythynnod a Fflatiau POB (%)

	Defnydd Cyfartalog Unedau				
	2008	2009	2010	2011	2012
Ionawr	24	20	17	29	32
Chwefror	37	43	34	42	41
Mawrth	39	41	37	38	45
Ebrill	48	51	49	63	55
Mai	54	55	53	65	48
Mehefin	57	56	60	65	65
Gorffennaf	64	67	67	71	68
Awst	81	75	81	85	81
Medi	62	61	60	72	64
Hydref	50	45	31	55	50
Tachwedd	25	22	22	31	36
Rhagfyr	36	48	35	32	38
<i>Cyfartaledd Mai - Hydref</i>	<i>61</i>	<i>60</i>	<i>59</i>	<i>69</i>	<i>63</i>
<i>Cyfartaledd blynyddol</i>	<i>48</i>	<i>50</i>	<i>45</i>	<i>54</i>	<i>53</i>


Mae cyfradd fisol defnydd unedau pob eiddo yn 2012, fel mewn blynyddoedd blaenorol, yn amrywio'n sylweddol ar hyd y flwyddyn, gan adlewyrchu natur dymhorol y sector yma. Cofnodwyd cyfradd gyfartalog fisol defnydd unedau o 32% ar gyfer Ionawr 2012, ffigur a gynyddodd i 81% yn Awst cyn gostwng i 36% yn Nhachwedd a 38% yn Rhagfyr. Rhwng Mawrth ac Ebrill 2012, cynyddodd cyfradd gyfartalog fisol defnydd unedau gan ddeg pwynt canran i 44% a 55% yn yr un drefn. Mae hyn yn gynydd is nag a gofnodwyd yn 2011, mae'n debyg oherwydd bod y Pasg yn gynnar ac effaith amodau tywydd gwaelach yn Ebrill 2012.

Tabl 1-2 - Defnydd Misol Unedau – Bythynnod a Fflatiau -Asiantaethau (%)


Defnydd Cyfartalog Unedau					
	2008	2009	2010	2011	2012
Ionawr	24	16	13	34	41
Chwefror	36	45	35	46	48
Mawrth	35	44	39	44	57
Ebrill	47	49	44	64	58
Mai	51	52	49	69	52
Mehefin	51	43	56	70	70
Gorffennaf	59	54	64	73	69
Awst	78	63	78	84	83
Medi	58	51	56	75	68
Hydref	44	36	21	62	56
Tachwedd	23	17	20	40	42
Rhagfyr	29	57	38	34	50
<i>Cyfartaledd Mai - Hydref</i>	<i>57</i>	<i>50</i>	<i>54</i>	<i>72</i>	<i>66</i>
<i>Cyfartaledd blynyddol</i>	<i>45</i>	<i>44</i>	<i>43</i>	<i>58</i>	<i>58</i>

Yn 2012, roedd cyfradd gyfartalog fisol defnydd unedau ar gyfer eiddo a osodwyd gan asiant yn amrywio o 41% yn Ionawr i 83% yn Awst i 42% yn Nhachwedd a 50% yn Rhagfyr. Er y cofnodwyd y cyfartaleddau misol uchaf yn ystod misoedd haf Mehefin, Gorffennaf ac Awst (70%, 69% a 83% yn yr un drefn), cofnodwyd y cynnydd mwyaf rhwng 2011 a 2012 y tu allan i brif dymor yr haf gyda chynnydd o naw pwynt canran yn Ionawr 2012 (34% i 41%) a 14 pwynt canran yn Rhagfyr (34% i 50%).

Mae mwy o wybodaeth am ddata defnydd hunanddarpar ar dudalennau 46-57.


*Cartrefi Gwyliau Carafan***Ffigur 1-8 - Defnydd Misol Unedau – Cartrefi Gwyliau Carafan 2012 (%)**

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, cynyddodd defnydd misol unedau ar gyfer cartrefi gwyliau carafán yn sylweddol rhwng Mawrth ac Ebrill yn 2012 (42 pwynt canran i 80%). Mae hyn yn dangos pwysigrwydd cyfnod Gwyliau'r Pasg i'r sector llety - roedd Pasg ddechrau Ebrill yn 2012. Mae'n debygol yr agorodd nifer fwy o safleoedd yn Ebrill i fanteisio ar gyfnod Gwyliau'r Pasg. Ers 2009, cyfraddau cyfartalog defnydd unedau ar gyfer Mai i Orffennaf a fu fwyaf cyson, tra bu mwy o amrywiad mewn cyfraddau ar gyfer Medi.

Ffigur 1-9 – Cyfartaleddau tymhorol – Cartrefi Gwyliau Carafan 2007 - 2012 (%)

Ar 84%, mae cyfartaledd Mai i Hydref 2012 ddau bwynt canran uwch na'r gyfradd gymharol yn 2011 o 82% ac mae'n parhau â'r cynnydd a gofnodwyd ers 2010 (lle cofnodwyd cyfradd o 75%). Mae hyn yn gwneud cyfartaledd Mai i Hydref 2012 yr ail uchaf a gofnodwyd ers 2007.

Mae mwy o wybodaeth ar ddefnydd Cartrefi Gwyliau Carafan ar dudalennau 58-61.


*Parciau Carafanau Teithio a Gwersylla***Ffigur 1-10 - Cyfartaleddau Tymhorol - Parciau Carafanau Teithiol a Gwersylla 2007 - 2012 (%)**

Bu cryn amrywiaeth yng nghyfartaledd Mai i Hydref ar gyfer parciau teithio dros y blynyddoedd. Roedd cyfradd 2007 yn 37%, ffigur a gynyddodd i 53% yn 2008 cyn gostwng i 39% yn 2009. Mae cyfraddau 2010 a 2011 o 48% yn 16 pwynt canran yn uwch na chyfartaledd 2012 o 32%. Dylid rhoi ystyriaeth i feintiau sampl cymharol fach y sector yma, ynghyd ag amrywiadau yn y rhai sy'n rhoi data, wrth gymharu data.

Mae mwy o wybodaeth ar dudalennau 62-64 ar ddefnydd Parciau Carafanau Teithio a Gwersylla.


Hostelau a Thai Bynciau

Ffigur 1-11 - Defnydd Misol Gwelyau – Hostelau – 2012 (%)



Roedd y gyfradd gyfartalog fisol ar gyfer defnydd gwelyau ar gyfer hostelau yn 15% yn Ionawr 2012. Cynyddodd y ffigur yma i frig o 68% yn Awst cyn gostwng i 26% yn Nhachwedd a Rhagfyr. Roedd cyfradd gyfartalog defnydd gwelyau ym Mawrth 2012 yn 39%, 11 pwynt canran yn uwch nag am yr un mis yn 2011, tra cynyddodd y gyfradd ar gyfer Mehefin o 53% yn 2011 i 64% yn 2012. Dros y blynyddoedd, mae cyfraddau cyfartalog defnydd gwelyau a gofnodwyd tuag at ddiwedd y flwyddyn wedi bod yn fwy cyson na'r rhai a gofnodwyd yn ystod misoedd yr haf, gyda'r cyfraddau a gofnodwyd ar gyfer Tachwedd a Rhagfyr yn yr ystod 22% - 26% ers 2009.

Ffigur 1-12 – Defnydd Cyfartalog Blynyddol Gwelyau - Hostelau – 2008-2012 (%)



Y gyfradd gyfartalog defnydd gwelyau a gofnodwyd ar gyfer hostelau yn 2012 oedd 43%, cynnydd o dri phwynt canran ar y gyfradd a gofnodwyd yn 2011 (40%) a'r uchaf a gofnodwyd gan sefydliadau yn y sector yma dros y pum mlynedd ddiwethaf.

Mae mwy o wybodaeth am ddefnydd Hostelau ar dudalennau 65-69.

Prif ganfyddiadau

Cynhaliwyd arolwg defnydd yn barhaus ymysg darparwyr llety gwesty wedi'i raddio ers 1972 i fonitro lefelau galw am ystafelloedd a gwelyau gwesty yng Nghymru. I gydymffurfio gyda gofynion Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd ar Ystadegau Twristiaeth, cafodd yr arolwg ei ymestyn yn 1997 i gynnwys pob llety â gwasanaeth yn cynnwys tai llety a sefydliadau gwely a brecwast, yn ogystal â llety â gwasanaeth heb ei raddio.

Cynhaliwyd yr arolwg hunanddarpar mewn gwahanol fformatau ers 1987. Mae'r arolwg yn cynnwys yr holl lety hunanddarpar, cartrefi gwyliau carafán a pharciau carafanau teithio a gwersylla. Yn ogystal, yn 2008, cynhwyswyd hostelau a thai bynciau hefyd o fewn cwmpas yr arolwg.

Lle maent ar gael ac yn briodol, cyflwynir ffigurau cymharol o flynyddoedd blaenorol yn yr adroddiad yma. Mae Adrannau 3 i 9 yn edrych ar bob un o'r sectorau llety fel sy'n dilyn:

- Adran 3: Gwestai
- Adran 4: Tai Llety a sefydliadau Gwely a Brecwast
- Adran 5: Pob Llety â Gwasanaeth
- Adran 6: Bythynnod a Fflatiau Hunanddarpar
- Adran 7: Cartrefi gwyliau carafán
- Adran 8: Parciau carafanau teithiol a gwersylla
- Adran 9: Hostelau a thai bynciau


Gwestai

Mae Adran 3 yr adroddiad yn cyflwyno lefelau cyfartalog defnydd misol a blynyddol gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer gwestai. Mae manylion methodoleg yr arolwg ar gael mewn atodiad technegol ar wahân.

Defnydd Cyfartalog Blynyddol Gwelyau ac Ystafelloedd

Roedd cyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd gwelyau ac ystafelloedd yn 2012 yn 44% a 59% yn yr un drefn. Mae'r ddwy gyfradd yr un fath â'r rhai a gofnodwyd yn 2007, gyda chynnydd bychan ar gyfradd 2011 ar gyfer defnydd gwelyau (42% yn 2011). Mae hyn yn parhau â'r cysondeb a gofnodwyd ar gyfer y cyfraddau hyn dros y blynyddoedd, gyda defnydd gwelyau yn yr ystod 41% i 44% a defnydd ystafelloedd yn yr ystod 55% i 59% ers 2002.


Ffigur 3 - Gwestai - Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd - Cyfartaleddau Blynyddol (%)



Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd

Cyflwynir y cyfraddau defnydd misol gwely ac ystafelloedd ynghyd â'r cyfartaleddau blynyddol a gofnodwyd yn y sector gwestai yn 2015 yn Ffigur 3-2 islaw.

Ffigur 3-2 - Gwestai - Defnydd Misol Gwelyau ac Ysbytai - 2012 (%)



Fel mewn blynyddoedd diweddar, dangoswyd natur dymhorol y sector gwestai yn y cyfraddau cyfartalog misol ar gyfer defnydd ystafelloedd a gwelyau a gofnodwyd yn 2012. Dechreuodd y gyfradd gyfartalog defnydd gwelyau ar 26% yn Ionawr 2012 cyn cynyddu i frig o 58% yn Awst a gostwng i 38% yn Rhagfyr. Yn yr un modd, roedd cyfradd gyfartalog defnydd ystafelloedd yn uwch yn ystod misoedd yr haf, gyda chyfraddau o 66% i 71% wedi'u cofnodi rhwng Mehefin a Medi, gyda'r gyfradd isaf wedi'i chofnodi yn Ionawr (40%).

Tabl 3-1 - Gwestai - Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd Ystafelloedd - Cyfartaleddau Blynyddol (%)

	Defnydd ystafelloedd										
	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012
Ionawr	36	37	35	40	38	40	39	40	39	40	40
Chwefror	47	48	49	48	50	50	50	48	50	53	49
Mawrth	50	50	52	52	51	53	54	51	53	56	59
Ebrill	52	56	54	57	58	58	56	58	60	61	57
Mai	60	62	63	63	65	65	66	62	64	64	63
Mehefin	63	63	65	65	66	67	66	68	69	68	66
Gorffennaf	65	66	67	67	70	67	67	70	70	69	67
Awst	67	69	68	69	73	73	71	70	69	67	72
Medi	65	67	69	69	71	71	69	69	70	68	71
Hydref	58	58	58	58	61	62	61	63	63	61	60
Tachwedd	50	50	52	50	53	55	54	54	54	56	52
Rhagfyr	42	43	45	43	44	47	45	47	42	44	49
Cyf.	55	56	57	57	58	59	58	58	59	59	59

Blynyddol

Roedd mwy o amrywiad mewn cyfraddau cyfartalog defnydd ystafelloedd rhwng 2011 a 2012 pan y'u dadansoddir ar sail fisol. Cofnodwyd cynnydd am fisoedd Awst (67% i 72%) a Medi (68% i 71%), yn

ogystal ag yn ystod mis olaf y flwyddyn (44% yn 2011 i 49% yn 2012 ar gyfer mis Rhagfyr). Fodd bynnag, cofnodwyd gostyngiadau hefyd, yn neilltuol ym mis Ebrill, pan ostyngodd cyfradd gyfartalog defnydd ystafelloedd o 61% yn 2011 i 57% yn 2012. Er bod y Pasg ym mis Ebrill yn 2012, roedd y gwyliau yn gynnar yn y mis ac roedd y tymheredd a'r lefelau heulwen yn is na'r cyfartaledd, yn ogystal â glawiad uwch na'r cyfartaledd.


Yn gyffredinol, mis Mai ddangosodd y cynnydd mwyaf yn gyffredinol mewn defnydd cyfartalog ystafelloedd dros y blynyddoedd, gyda chyfradd o 50% wedi'i gofnodi ym Mawrth 2002 o gymharu gyda 59% yn 2012.

Cyflwynir tueddiadau mewn cyfraddau misol defnydd gwelyau ers 2002 yn Atodiad 1a.

Cyfraddau Defnydd Rhanbarthol

Mae Ffigur 3-3 islaw'n cyflwyno cyfraddau cyfartalog blynyddol gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer pob rhanbarth yng Nghymru. Caiff y canlyniadau ar gyfer y De hefyd eu cyflwyno ar wahân i ranbarthau'r De Ddwyrain a'r De Orllewin.

Ffigur 3-3 - Gwestai - Cyfartaledd Cenedlaethol yn ôl Rhanbarthau Cymru – 2012 (%)



Yn 2012, cofnodwyd y cyfraddau cyfartalog blynyddol uchaf ar gyfer defnydd gwelyau gan sefydliadau yn y Gogledd (49%), a chofnododd rhai yn y Canolbarth gyfradd o 42% a'r De Orllewin gyfradd o 39%. Yn 2011, cofnododd gwestai yn y De Ddwyrain gyfartaledd blynyddol o 38%, oedd bedwar pwynt canran yn is na'r hyn a gofnodwyd ar gyfer y rhanbarth yma yn 2010 (42%). Cynyddodd y gyfradd ar gyfer y rhanbarth yma eto yn 2012 i 41%.

Roedd mwy o amrywiaeth rhwng y rhanbarthau pan y'u dadansoddwyd yn ôl eu cyfradd gyfartalog flynyddol ar gyfer defnydd ystafelloedd yn 2012, fel y digwyddodd mewn blynyddoedd blaenorol. Cofnododd sefydliadau yn y Gogledd a'r De Ddwyrain gyfraddau cyfartalog defnydd blaenorol o 62% a 61% yn yr un drefn, tra cofnododd sefydliadau yn y De Orllewin gyfartaledd blynyddol o 50% a'r rhai o'r Canolbarth gyfartaledd blynyddol o 54%.

Cyflwynir lefelau cyfartalog defnydd gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer pob rhanbarth ar sail fisol yn 2012 yn Atodiad 1b ac 1c. Dylid nodi nad yw'r wybodaeth yma bob amser ar gael oherwydd maint bach y sampl mewn rhai ardaloedd.

Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd Rhanbarthol

Cyflwynir cyfraddau defnydd ystafelloedd yn rhanbarthol Cymru ers 2002 yn Nhabl 3-2.

Yn gyffredinol, roedd llawer o gysondeb yn y cyfraddau cyfartalog blynyddol a gofnodwyd ar gyfer defnydd ystafelloedd ar gyfer y rhanbarthau unigol rhwng 2011 a 2012. Cofnododd y Canolbarth a'r De Ddwyrain gyfraddau cyfartalog blynyddol ar gyfer defnydd ystafelloedd oedd yn gyfartal i'r rhai a gofnodwyd yn 2011 (54% a 61% yn yr un drefn), gyda chynnydd bychan wedi'i gofnodi yn y sefydliadau yn y Gogledd (61% yn 2011 i 62% yn 2012). Er yn fychan (un pwynt canran), bu cynnydd yn y gyfradd gyfartalog flynyddol ar gyfer defnydd ystafelloedd mewn gwestai yn y De Ddwyrain yn 2012 (51% i 50%), sy'n gwneud hyn y gyfradd gyfartalog flynyddol isaf ar gyfer defnydd gwelyau yn y rhanbarth yma ers 2002.

Tabl 3-2 - Gwestai - Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd Ystafelloedd yn ôl Rhanbarthau Cymru (%)


	Defnydd Cyfartalog Blynyddol Ystafelloedd										
	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012
Gogledd	52	53	54	54	57	59	57	62	61	61	62
Canolbarth	49	51	52	52	53	53	50	49	49	54	54
De Ddwyrain	60	62	63	60	63	63	66	62	62	61	61
De Orllewin	56	54	55	59	58	58	56	53	54	51	50
CYFANSWM	55	56	57	57	58	59	58	58	59	59	59
CYMRU											

Canran Gwesteion Tramor

Cafodd y ffurflenni a ddefnyddiwyd i gasglu data defnydd eu diweddarau yn 2008 i roi mwy o ffocws iddynt a'u gwneud yn fwy effeithiol. Roedd un o'r newidiadau'n effeithio ar y ffordd y cesglir gwybodaeth ar westeion tramor. Mewn blynyddoedd blaenorol, gofynnwyd i sefydliadau roi gwybodaeth ar nifer y gwesteion newydd oedd yn cyrraedd bob dydd (o'r Deyrnas Unedig a hefyd dramor) a chyflwynwyd y ganran o westeion tramor yn seiliedig ar gyfanswm nifer y gwesteion newydd yn cyrraedd. Ni chaiff yr wybodaeth yma ei chasglu erbyn hyn, felly fel canlyniad rydym wedi cyflwyno'r gyfran o arosiadau tramor fel canran o nosweithiau gwely (yn seiliedig ar gyfanswm nosweithiau gwely).

Mae'n bwysig dweud mai mater o ychydig o leoedd degol yw'r amrywiad rhwng y gwahanol ddulliau o gasglu data tramor. Fe enghraifft, roedd canran blynyddol 2007 yn 4.0% yn defnyddio'r hen ddull a 4.1% yn defnyddio'r dull newydd.

Oherwydd y newidiadau hyn, ac i sicrhau cysondeb y caiff ffigurau tramor ar draws y blynyddoedd eu cymharu'n seiliedig ar yr un fethodoleg, cafodd faint o wybodaeth tueddiad a gyflwynir am westeion tramor ei ostwng a bydd y ffocws yn yr adroddiad yma ar ganlyniadau diweddaraf 2008 i 2012.

Ffigur 3-4 - Gwestai - Canran Nosweithiau Gwely Tramor 2012 (%)


Yn ôl y disgwyl, roedd defnydd tramor ar ei uchaf yn ystod y prif dymor twristiaeth. Cofnodwyd cyfartaledd o 6% yng Ngorffennaf a 7% yn Awst 2012. Er mai yn Nhachwedd (2%) yr oedd y canran isaf a gofnodwyd ar hyd y flwyddyn, roedd y gyfradd a gofnodwyd ar gyfer Mehefin hefyd yn isel ar 3%. Cofnodwyd tymheredd is na'r cyfartaledd a llai o oriau heulwen ynghyd â glawiad uwch na'r cyfartaledd am nifer o fisoedd yr haf yng Nghymru yn 2012, gyda'r glawiad yn neilltuoel o uchel yn ystod Mehefin. Roedd cyfran gyfartalog flynyddol gwesteion tramor yn 4%.

Tueddiadau mewn Canran Gwesteion Tramor


Fel y dangosir yn Ffigur 3-5 ar y dudalen nesaf, roedd y canran blyneddol o westeion tramor a gofnodwyd yn 2012 yn 4%, gostyngiad bychan ar y cyfraddau a gofnodwyd bob blwyddyn o 2008 i 2011 (5%) ond cyfradd sy'n parhau i arddangos lefel dda o sefydlogrwydd.

Bu cyfraddau misol defnydd tramor yn amrywiol dros y tair blynedd ddiwethaf, fodd bynnag, o gofio am y cyfrannau cymharol fach a gofnodwyd, ni fu'r rhain yn amrywiadau mawr iawn. Cofnodwyd y gostyngiad amlycaf yn 2012 ar gyfer Mehefin, gyda'r canran o westeion tramor yn gostwng o 6% yn 2010 a 2011 i 3% yn 2012. Y mis mwyaf cyson fu Ebrill, gyda chyfradd o 4% wedi'i gofnodi ar gyfer y mis hwn bob blwyddyn ers 2008.

Ffigur 3-5 - Gwestai - Tueddiadau mewn Canran Ymwelwyr Tramor (%)




Ffigur 3-6 - Gwestai - Canran Gwesteion Tramor yn ôl Rhanbarth 2008 – 2012 (%)



Bu cyfraddau defnydd tramor y Gogledd a'r De Ddwyrain yn gymharol sefydlog mewn blynyddoedd diweddar, gyda'r gyfradd flynyddol defnydd tramor ar gyfer y Gogledd yn gyson yn 3% ers 2009 a chyfradd y De Ddwyrain yn yr ystod 7%-10% dros y pedair blynedd ddiwethaf. Mae cyfradd flynyddol defnydd tramor ar gyfer y Canolbarth wedi cynyddu ychydig dros y pum mlynedd rhwng 3% a 5% (roedd 2012 yn gyfartal â 2011). Ers 2009, mae'r canran o westeion tramor ar gyfer gwsteion tramor o'r De Orllewin wedi gostwng o 8% i 5%.

Canran Gwesteion Busnes

Ar y ffurflen defnydd misol, gofynnwyd i weithredwyr ddynodi nifer y gwesteion sy'n aros yn y gwesty bob nos ar gyfer dibenion busnes. Dylid nodi nad yw pawb sy'n cymryd rhan yn rhoi'r wybodaeth yma.



Ffigur 3-8 - Gwestai - Canran Gwesteion Busnes 2012 (%)

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd canran y gwesteion busnes ar ei uchaf ar ddechrau a diwedd y flwyddyn, tueddiad croes i gyfraddau defnydd yn gyffredinol ond un sydd wedi'i sefydlu ar gyfer cyrchfannau'r Deyrnas Unedig ac o'r herwydd yn adlewyrchu sylfaen lai o ymweliadau hamdden yn y misoedd hyn yn hytrach na chynnydd mewn gweithgaredd busnes. Roedd y gyfran o westeion busnes a gofnodwyd yn Ionawr 2012 yn 27%, cyfradd a ostyngodd i'w bwynt isaf yn Awst a Medi 2012 (6%) cyn cynyddu i 12% yn Rhagfyr 2012. Mae'n debygol fod y gostyngiad rhwng Mawrth ac Ebrill 2012 (11 i 7%) yn adlewyrchu dechrau'r prif dymor twristiaeth.

Fel y dangosir yn Nhabl 3-3, ar y dudalen nesaf, bu'r gyfran gyfartalog flynyddol o westeion busnes yn gostwng yn gyffredinol ers 2004. Mae cyfradd 2012 o 9% yn ostyngiad o bum pwynt canran ar gyfradd 2011 o 14% a'r gyfradd gyfartalog flynyddol isaf ar gyfer defnydd busnes a gofnodwyd ers 2003. Pan y'u dadansoddir yn ôl mis, cofnodwyd gostyngiadau yn y rhan fwyaf o fisoedd y flwyddyn, yn neilltuol yn ystod Mawrth (19% yn 2011 i 11% yn 2012) a Thachwedd (21% i 11%), y ddau yn fisoedd ysgwydd pan mae defnydd busnes yn tueddu i fod yn uwch ac mae hynny fel arfer yn hybu'r gyfradd flynyddol gyffredinol ar gyfer defnydd busnes.

Tabl 3-3 Tueddiadau yn y Canran o Westeion Busnes

	% gwesteion busnes									
	2003	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012
Ionawr	36	41	45	41	33	38	31	22	29	27
Chwefror	33	38	37	30	25	26	26	19	21	17
Mawrth	30	39	30	28	21	19	24	20	19	11
Ebrill	21	25	26	15	15	24	17	13	9	7
Mai	18	24	19	17	18	16	16	15	15	9
Mehefin	19	20	21	17	16	19	20	14	12	7
Gorffennaf	17	22	19	17	14	18	17	13	11	7
Awst	13	15	14	14	10	11	11	9	9	6
Medi	20	21	22	15	12	18	14	12	10	6
Hydref	28	25	25	21	15	21	18	15	13	8
Tachwedd	38	38	34	24	23	28	19	24	21	11
Rhagfyr	26	24	28	18	24	21	17	20	14	12
Cyf. Blynnyddol	23	27	25	20	18	20	18	15	14	9

Dylid nodi nad yw pob sefydliad yn rhoi data ar ddefnydd busnes. Yn 2012, ni wnaeth nifer o sefydliadau a roddodd y data yn 2011 wneud hynny yn 2012, sydd wedi cyfrannu at y gostyngiadau a gofnodwyd ar gyfer y gyfradd yma yn 2012.


Dadansoddiad Manylion o'r Prif Ganlyniadau

Mae'r adran yma o'r adroddiad hwn yn edrych yn fanylach ar wahanol nodweddion gwestai a'r dylanwad a gawsant, os cawsant ddylanwad, ar lefelau defnydd gwelyau ac ystafelloedd.

Defnydd yn ôl Maint Gwesty

Cyflwynir ffigurau cyfartalog blynyddol defnydd gwelyau ac ystafelloedd yn ôl maint y gwesty ar gyfer 2012 yn Ffigur 3-8 islaw. Oherwydd maint bach y sampl, nid oes dadansoddiad ar gyfer gwestai gyda 1-3 ystafell. Rhoddir manylion y lefelau misol ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer pob un o'r categorïau maint a ddefnyddir yn y dadansoddiad yn Atodiad 1b a 1c yr adroddiad yma.

Ffigur 3-8 - Defnydd Blynyddol yn ôl Maint Gwesty - 2012 (%)



Yn gyffredinol, mae arolygon defnydd dros y blynyddoedd wedi cofnodi cydberthyniad cadarnhaol rhwng maint a chyfraddau defnydd gwelyau. Yn 2012, mae hyn rywfaint yn llai amlwg am y cyfraddau cyfartalog blynyddol a gofnodwyd ar gyfer defnydd gwelyau, gyda'r cyfraddau uchaf wedi'u cofnodi gan sefydliadau gyda 26 ystafell neu fwy (yn yr ystod 45%-46% yn 2012). Mae'r cydberthyniad cyffredinol rhwng maint gwesty a chyfraddau defnydd yn gliriach ar gyfer y cyfraddau cyfartalog blynyddol a gofnodwyd ar gyfer defnydd ystafelloedd. Cofnododd gwestai gyda rhwng 51 a 100 ystafell gyfradd gyfartalog flynyddol defnydd gwelyau o 65% ar gyfer rhai gyda 100 ystafell, roedd cyfradd o 64% o gymharu gyda 49% ymysg rhai gyda 4 i 10 ystafell.

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, mae nifer o ffactorau a allai fod wedi cyfrannu at y cydberthyniad cyffredinol gadarnhaol yma. Mae gwestai mwy yn tueddu i fod ar agor drwy'r flwyddyn a hefyd yn fwy tebygol o fanteisio o gyllidebau marchnata mwy. Hefyd, mae llawer ohonynt wedi'u lleoli mewn dinasoedd a threfi mawr, gan olygu eu bod yn fwy tebygol o fod â gwesteion busnes yn defnyddio ystafelloedd sengl.

Tabl 3-4 - Tueddiadau mewn Cyfraddau Blynyddol Defnydd Ystafelloedd yn ôl Maint Gwesty (%)


Defnydd Cyfartalog Blynyddol Ystafelloedd											
	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012
4-10 ystafell	43	44	48	47	47	46	40	40	45	52	49
11-25 ystafell	51	50	50	52	53	54	53	55	53	54	51
26-50 ystafell	53	54	56	56	58	61	62	58	57	56	62
51-100 ystafell	60	63	66	60	62	64	66	63	66	65	65
101+ ystafell	68	68	68	69	71	68	67	69	68	63	64

Tra mai sefydliadau mwy gofnododd y cyfraddau uchaf blynyddol ar gyfer defnydd ystafelloedd yn 2012, cofnodwyd y cynnydd mwyaf ar gyfer rhai gyda rhwng 26 a 50 ystafell, gyda chyfradd 2012 o 62% chwe phwynt canran yn uwch na'r gyfradd a gofnodwyd ar gyfer y sefydliadau hyn yn 2011 (56%) ac yn gyfartal i'r hyn a gofnodwyd yn 2008. Cofnododd sefydliadau llai ostyngiadau yn eu cyfraddau cyfartalog blynyddol ar gyfer defnydd ystafelloedd gyda rhai gyda 11-15 ystafell yn gostwng o 54% i 51% rhwng 2011 a 2012, a gostyngodd y gyfradd ar gyfer rhai gyda 4-10 ystafell o 52% i 49%.

Defnydd yn ôl Tariff

Mae'r ffigurau tariff a ddefnyddiwyd yn yr arolwg yn cyfeirio at y swm a godwyd fesul person am ystafell ddwbl neu ystafell gefell, yn cynnwys brecwast. Rhoddir manylion y lefelau defnydd misol gwelyau ar gyfer pob un o'r categorïau tariff a ddefnyddir yn y dadansoddiad yn Atodiad 1b ac 1c yr adran hon o'r adroddiad.

Mae Ffigur 3-9 islaw'n dangos ffigurau defnydd blynyddol gwelyau ac ystafelloedd yn ôl tariff ar gyfer 2012. Nid oes dadansoddiad ar gyfer gwestai gyda thariff o lai na £20 gan nad oedd unrhyw sefydliadau yn y band tariff yma yn y sampl yn 2012.


Ffigur 3-9 - Defnydd Blynyddol yn ôl Tariff Gwesty – 2012 (%)

Unwaith eto, roedd perthynas gyffredinol gadarnhaol rhwng y tariff a godwyd a lefelau defnydd gwestai yn 2012. Sefydliadau'n codi £50 neu fwy gofnododd y cyfraddau cyfartalog blynyddol uchaf ar gyfer defnydd gwelyau (46% ar gyfer rhai'n codi £50-£59.99), cyfradd sydd bum phwynt canradd yn uwch na'r hyn a gofnodwyd ar gyfer sefydliadau'n codi £30-£39.99. Mae'n debygol i westai yn y band tariff uchaf ddenu cyfran uwch o westeion busnes yn defnyddio ystafelloedd defnydd sengl.

Ar gyfer gwestai'n codi £40-£49.99 a'r rhai'n codi £60 neu fwy, mae'r cyfraddau cyfartalog blynyddol a gofnodwyd yn parhau'n debyg yn 2012 i'r rhai a gofnodwyd yn 2011. Ers 2009, mae cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd sefydliadau'n codi £30-£39.99 wedi cynyddu flwyddyn ar flwyddyn gyda chyfradd 2012 o 49% dri phwynt canran yn uwch na chyfradd 2011 o 46%. Cofnododd y rhai'n codi £50-£59.99 ostyngiad yn 2012 o dri phwynt canran (60% i 57%), fodd bynnag, mae'r gyfradd yma'n parhau'n uwch na chyfradd 2009 o 54%.

Mae Ffigur 3-10 islaw'n dangos cyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd yn ôl tariffau am y cyfnod 2003-2012.

Ffigur 3-10 - Tueddiadau mewn Cyfraddau Blynyddol Defnydd Ystafelloedd yn ôl Tariff Gwesty (%)




Defnydd yn ô Lleoliad

Cafodd cyfraddau defnydd eu dadansoddi yn ôl lleoliad y gwesty - mewn dinas/tref fawr, tref fach, ar lan y môr neu wledig/pentref. Rhoddir manylion lefelau defnydd misol gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer pob un o'r categorïau lleoliad yn Atodiad 1b a 1c yr adroddiad yma.

Dangosir ffigurau cyfartalog blynyddol defnydd gwelyau ac ystafelloedd yn Ffigur 3-11 islaw.

Ffigur 3-11- Defnydd Blynyddol yn ôl Lleoliad Gwesty - 2012 (%)



Fel mewn blynyddoedd blaenorol, sefydliadau mewn dinasoedd a threfi mawr gofnododd y gyfradd gyfartalog flynyddol uchaf ar gyfer defnydd ystafelloedd yn 2012 (64%). Fel yn 2011, sefydliadau mewn ardaloedd glan môr gofnododd y gyfradd gyfartalog flynyddol uchaf ar gyfer defnydd gwelyau, gan gofnodi cyfradd o 47% ar gyfer y sefydliadau hyn yn 2012. Cofnodwyd y cyfraddau defnydd cyfartalog blynyddol isaf ar gyfer defnydd gwelyau mewn gwestai mewn trefi bach a gwledig (41%), a chofnodwyd y gyfradd gyfartalog flynyddol isaf ar gyfer gwestai mewn lleoliadau gwledig/pentref (53%). Yn 2011, roedd y gwahaniaeth mwyaf rhwng cyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer sefydliadau mewn trefi bach a dinasoedd/trefi mawr (ugain pwynt canran yr un).

Tabl 3-5 - Tueddiadau mewn Cyfraddau Blynyddol Defnydd Ystafelloedd yn ôl Lleoliad Gwesty (%)


	Defnydd Blynyddol Ystafelloedd										
	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012
Dinas/tref fawr	69	72	69	67	71	71	71	69	66	62	64
Tref fach	52	53	54	56	57	57	53	55	61	59	61
Glan môr	56	57	56	56	57	62	60	58	59	60	59
Gwledig/pentref	49	52	53	53	53	52	53	52	53	55	53

Yn dilyn gostyngiadau yn 2011, cynyddodd cyfraddau cyfartalog blynyddol ar gyfer defnydd ystafelloedd mewn sefydliadau mewn dinasoedd/trefi mawr a threfi bach yn 2012 (62% i 64% a 59% i 61% yn yr un drefn). Ar y llaw arall, cofnododd sefydliadau mewn lleoliadau glan môr a gwledig/pentref gyfraddau cyfartalog blynyddol ar gyfer defnydd ystafelloedd yn gyfartal â'r rhai a gofnodwyd ar gyfer yr ardaloedd hyn yn 2010 (59% a 53% yn yr un drefn).

Defnydd yn ôl Graddiad

Ers 1999, cafodd cyfraddau defnydd gwestai eu dadansoddi yn ôl eu graddiad dan y Cynllun Graddiad Seren a weinyddir gan Croeso Cymru. Nid oes unrhyw ddadansoddiad ar gyfer gwestai gyda graddiad 1 seren gan mai dim ond un gwesty gyda'r graddiad hwn oedd yn y sampl.


Ffigur 3-12 - Defnydd Blynyddol yn ôl Graddiad Gwesty – 2012 (%)



Fel mewn nifer o flynyddoedd blaenorol, gwestai heb fod wedi graddio o fewn cynllun graddio Croeso Cymru gofnododd y cyfraddau cyfartalog blynyddol isaf, gyda chyfradd gyfartalog flynyddol o 39% a chyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd o 53% a gofnodwyd yn 2012. O fewn cynllun graddio Croeso Cymru, gwestai gyda'r graddiad seren uchaf gofnododd y cyfartaleddau blynyddol uchaf, gyda chyfraddau o 59% a 77% wedi'u cofnodi ar gyfer y cyfraddau defnydd cyfartalog gwelyau ac ystafelloedd yn yr un drefn.

Fel y dangosir yn Ffigur 3-13 islaw, arhosodd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ar gyfer gwestai heb raddiad seren a rhai yn y categorïau graddiad 2-4 seren yn debyg yn 2012 i'r rhai a gofnodwyd yn y flwyddyn flaenorol. Parhaodd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd ar gyfer sefydliadau 5 seren, fodd bynnag, i gynyddu yn 2012 gyda chyfradd o 77% o gymharu gyda 73% yn 2011 67% yn 2010. Dyma'r gyfradd gyfartalog flynyddol uchaf ar gyfer defnydd ystafelloedd a gofnodwyd gan y sefydliadau hyn ers 2004. Cyflwynir ffigurau cyfartalog defnydd misol a blynyddol ar gyfer graddiadau yn Atodiad 1b ac 1c.

Ffigur 3-13 - Tueddiadau mewn Cyfraddau Blynyddol Defnydd ystafelloedd yn ôl Graddiad Gwesty (%)




Tai Llety a Sefydliadau Gwely a Brecwast

Mae Adran 4 yr adroddiad yn cyflwyno lefelau cyfartalog defnydd misol a blynyddol ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd tai llety a sefydliadau gwely a brecwast. Mae manylion o fethodoleg yr arolwg ar gael mewn atodiad technegol ar wahân.

Defnydd Cyfartalog Blynyddol Defnydd ac Ystaelloedd

Fel y dangosir yn Ffigur 4-1 islaw, bu cyfraddau defnydd cyffredinol ar gyfer Tai Llety a sefydliadau Gwely a Brecwast yn gostwng yn gyffredinol ers canol y 2000au. Parhaodd cyfradd flynyddol defnydd gwelyau 2012 i ostwng ychydig i 27%, y gyfradd isaf a gofnodwyd ers 2002. Er bod y gyfradd gyfartalog flynyddol ar gyfer defnydd ystafelloedd ar gyfer 2012 hefyd ar ei bwynt isaf yn 2002, fe wnaeth barhau'n gyfartal gyda chyfradd 2011 o 34%.


Ffigur 4-1 - Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast - Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd - Cyfartaleddau Blynyddol (%)



Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd

Cyflwynir y cyfraddau misol ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd ynghyd â'r cyfartaleddau blynyddol a gofnodwyd yn y sector tai llety a gwely a brecwast yn 2012 yn Ffigur 4-2 islaw.

Ffigur 4-2 - Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast - Defnydd Misol Ystafelloedd a Gwelyau - 2012 (%)



Fel mewn blynyddoedd blaenorol, parhaodd natur dymhorol y sector Tai Llety a sefydliadau Gwely a Brecwast yn amlwg yn 2012 gyda chyfraddau cyfartalog defnydd gwelyau ar eu huchaf yn ystod y prif dymor twristiaeth (Mai i Fedi). Amrywiodd lefelau defnydd gwelyau o 10% yn Ionawr i frig o 46% yn Awst cyn gostwng i 10% yn Rhagfyr. Dilynodd lefelau defnydd ystafelloedd batrwm tebyg gan ddringo o 14% yn Ionawr i 53% yn Awst cyn gostwng i 13% yn Rhagfyr 2012.

Fel y dangosir yn Nhabl 4-1 ar y dudalen nesaf, roedd cyfraddau cyfartalog defnydd ystafelloedd yn gyffredinol ar lefel debyg neu'n uwch yn 2012 nag yn 2011 ar gyfer y misoedd hynny y tu allan i'r prif dymor twristiaeth. Roedd defnydd cyfartalog ystafelloedd a gofnodwyd ym Mawrth 2012 bedwar pwynt canran yn uwch na'r gyfradd gymharol ar gyfer 2011 (28% a 24% yn yr un drefn|), tra cynyddodd y gyfradd ar gyfer Hydref o 29% i 32% dros yr un cyfnod. Cofnodwyd y gostyngiad mwyaf yn y gyfradd gyfartalog o ddefnydd ystafelloedd Awst pan ostyngodd y gyfradd o 59% yn 2011 i 53% yn 2012. Mae cyfradd gyfartalog defnydd ystafelloedd Awst wedi gostwng yn gyffredinol ar gyfer y sector Tai Llety a sefydliadau Gwely a Brecwast ers 2002 pan gofnodwyd cyfradd o 70%.


Cyflwynir y tueddiadau mewn cyfraddau misol defnydd gwelyau yn Atodiad 2a.

Tabl 4-1 - Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast - Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd Ystafelloedd - Cyfartaleddau Misol (%)

	Defnydd ystafelloedd										
	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012
Ionawr	22	21	22	26	17	19	18	17	15	13	14
Chwefror	26	27	27	29	27	27	26	25	24	19	19
Mawrth	34	30	29	36	28	29	30	27	27	24	28
Ebrill	33	45	44	40	42	40	34	38	38	39	36
Mai	45	52	49	49	52	49	46	45	42	41	42
Mehefin	57	50	57	56	57	50	45	48	50	49	48
Gorffennaf	60	61	64	63	65	54	54	54	53	50	49
Awst	70	72	73	72	71	66	59	59	57	59	53
Medi	54	54	56	59	56	51	47	51	50	45	48
Hydref	41	39	43	41	43	39	38	39	39	29	32
Tachwedd	29	30	28	24	28	27	25	25	25	19	20
Rhagfyr	24	24	25	20	27	19	21	21	18	13	13
<i>Cyf Blynnyddol</i>	42	43	44	44	43	40	37	38	37	34	34

Cyfraddau Defnydd Rhanbarthol

Mae Ffigur 4.3 islaw'n cyflwyno cyfraddau cyfartalog blynnyddol defnydd gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer tai llety a sefydliadau gwely a brecwast ar gyfer pob rhanbarth o Gymru yn 2012. Caiff y cyfraddau misol defnydd gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer pob ardal eu cyflwyno yn Atodiad 2b a 2c yr adroddiad yma.

Ffigur 4-3 - Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast - Cyfartaledd Blynnyddol yn ôl rhanbarthau Cymru – 2012 (%)

Roedd y cyfraddau cyfartalog blynnyddol uchaf ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd uchaf ar gyfer rhanbarth y De Orllewin yn 2012 (35% a 40% yn yr un drefn). Cofnododd sefydliadau yn y Gogledd gyfradd cyfartalog blynnyddol o 25% ar gyfer defnydd gwelyau, cyfradd gyfartal i'r hynny a gofnodwyd mewn sefydliadau yn y Canolbarth ac ychydig yn uwch na'r hynny a gofnodwyd ar gyfer rhai yn y De Ddwyrain (23%). Roedd cyfradd gyfartalog defnydd ystafelloedd y De Orllewin (40%) naw pwynt canran yn uwch na'r cyfraddau a gofnodwyd gan sefydliadau yn y gogledd a'r De Ddwyrain (31% yr un).

Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd Rhanbarthol

Cyflwynir lefelau defnydd ystafelloedd ym mhob rhanbarth ers 2000 yn Nhabl 4-2 islaw.

Tabl 4-2 - Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast - Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd Ystafelloedd yn ôl Rhanbarthau Cymru (%)

	Defnydd ystafelloedd										
	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012
Gogledd	38	40	42	44	43	41	35	39	39	35	31
Canolbarth	33	33	33	34	33	33	29	33	32	34	32
De Ddwyrain	52	52	52	51	49	46	43	40	38	25	31
De Orllewin	48	46	48	47	48	43	43	39	39	37	40
<i>Cyfanswm Cymru</i>	42	43	44	44	43	40	37	38	37	34	34

Cofnodwyd cynnydd yn y gyfradd gyfartalog flynyddol ar gyfer defnydd ystafelloedd ar gyfer sefydliadau yn y De, yn neilltuol yn rhanbarth y De Ddwyrain. Yn 2011, roedd y gyfradd gyfartalog flynyddol ar gyfer defnydd ystafelloedd yn y De Ddwyrain (25%) 13 pwynt canran yn is nag yn 2010 ac roedd ar ei gyfradd isaf ers 2001. Yn 2012, cynyddodd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd ar gyfer y rhanbarth yma gan chwe phwynt canran i 31%. Dylid cadw mewn cof fod maint sampl rhanbarth y De Ddwyrain ar gyfer defnydd busnes yn isel ac ni wnaeth pob un o'r rhai a gyflenwodd data busnes hynny am bob mis felly dylid mae angen gofal wrth drin canlyniadau.


O gymharu, cofnodwyd gostyngiadau ar gyfer lleoliadau yn y Gogledd (35% yn 2011 i 31% yn 2012) ac yn y Canolbarth (34% yn 2011 i 32% yn 2012).

Canran Gwesteion Tramor

Fel y disgrifir yn yr adran flaenorol (Adran 3), yn 2008 bu newid bach yn y ffordd y casglwyd data ar gyfer gwesteion tramor. Yn 2008, cafodd y ffurflenni a ddefnyddiwyd i gaglu data defnydd eu diweddarau i roi mwy o ffocws iddynt a'u gwneud yn fwy effeithiol. Roedd un o'r newidiadau'n effeithio ar y ffordd y cesglir gwybodaeth ar westeion tramor. Mewn blynyddoedd blaenorol, gofynnwyd i sefydliadau roi gwybodaeth ar nifer y gwesteion newydd oedd yn cyrraedd bob dydd (o'r Deyrnas Unedig a hefyd dramor) a'r canran o westeion tramor yn seiliedig ar gyfanswm nifer y gwesteion newydd yn cyrraedd. Ni chaiff yr wybodaeth hon ei chasglu erbyn hyn, felly fel canlyniad, caiff y gyfran o arosiadau tramor ei chyflwyno fel canran o noweithiau gwely tramor (yn seiliedig ar gyfanswm y nosweithiau gwely).

Yng ngoleuni'r newidiadau hyn ac i sicrhau cysondeb y caiff ffigurau tramor ar draws y blynyddoedd eu cymharu yn seiliedig ar yr un fethodoleg, cafodd faint o wybodaeth gyda thueddiadau eu chyflwyno ar gyfer gwesteion tramor ei ostwng ac mae ffocws yr adroddiad yma ar ganlyniadau diweddaraf 2008 i 2012.

Ffigur 4-4 – Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast - Canran Nosweithiau Gwely Tramor - 2012 (%)




Fel mewn nifer o flynyddoedd blaenorol, roedd y canran o westeion tramor ar ei uchaf yn y cyfnod Mehefin i Awst yn 2012 gyda chyfraddau o 13% a 17% wedi eu cofnodi, er na chafodd 2012 ddechrau cryf yn nhermau'r gyfran o westeion o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig (11% yn Ionawr a 12% yn Chwefror 2012). Gostyngodd y canran o westeion tramor o 11% ym Medi 2012 i gyfradd gyson o 6% ar gyfer Hydref, Tachwedd a Rhagfyr 2012. Roedd cyfradd gyfartalog flynyddol nosweithiau gwely tramor ar gyfer 2012 yn 11%.

Tueddiadau yn y Canran o Westeion Tramor

Ar draws y pum mlynedd a ddangosir yn Ffigur 4-5 (islaw), ni fu amrywiad sylweddol yn y canran o westeion tramor, gan barhau yn yr ystod 11% - 12%. Fodd bynnag, bu rhai amrywiadau sylweddol yn ôl mis. Cofnodwyd y gwahaniaeth mwyaf yn Ionawr a Chwefror 2012, lle cynyddodd y canran o westeion tramor gan chwe phwynt canran a phum pwynt canran yn yr un drefn o gymharu â chyfraddau 2011 ar gyfer y misoedd hyn. Dros y blynyddoedd, mae cyfraddau wedi amrywio am fisoedd Tachwedd a Rhagfyr.


Ffigur 4-5 - Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast - Tueddiadau yn y Canran o Nosweithiau Gwely Tramor



Yn y blynyddoedd blaenorol, mae'r De Ddwyrain (yn cynnwys Caerdydd), wedi cofnodi cyfrannau llawer uwch o ddefnyddwyr tramor na rhanbarthau eraill o Gymru. Er bod y cyfraddau a gofnodwyd ar draws y pedwar rhanbarth yn fwy cyson yn 2012 nag ar gyfer nifer o flynyddoedd blaenorol, mae cyfradd 2012 ar gyfer y De Ddwyrain (13%) yn gynydd ar gyfer y rhanbarth hwn (o 10% yn 2011) yn dilyn tair blynedd o ganrannau gostyngol o westeion tramor.

Cynyddodd y canran o nosweithiau tramor gan ddau bwynt canran ar gyfer sefydliadau yn y Canolbarth (10% i 12%), a gostyngodd cyfradd y Gogledd ychydig gan un pwynt canran i 9% yn 2012 a pharhaodd cyfradd y De Orllewin yn wastad gyda 2011 ar 12%.


Ffigur 4-6 - Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast - Canran Gwesteion Tramor yn ôl Rhanbarth 2007–2012 (%)



Canran Gwesteion Busnes

Fel gyda gwestai, gofynnwyd i weithredwyr tai llety a sefydliadau gwely a brecwast gofnodi nifer y gwesteion sy'n aros ar gyfer dibenion busnes. Dylid nodi na wnaeth yr holl gyfranogwyr roi'r wybodaeth yma i ni.


Ffigur 4-7 - Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast - Canran Gwesteion Busnes – 2010 - 2012 (%)



Mae cyfran gyfartalog flynyddol gwsteion busnes mewn sefydliadau gwely a brecwast a thai llety yn 2012 yn 20%, cynnydd o bum pwynt canran ar gyfartaledd blynyddol 2011 o 15% ac yn dychwelyd i'r un gyfradd ag a gofnodwyd yn 2010. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, cofnodwyd y cyfrannau uchaf o wsteion busnes y tu allan i brif dymor yr haf, yn neilltuol yn Ionawr a Chwefror. Cofnododd y ddau fis yma gynnydd yn y gyfran o wsteion busnes o gymharu gyda'r un misoedd yn 2012, gyda chynnydd o 43% yn 2011 i 50% yn 2012 ar gyfer Ionawr a chynnydd o naw pwynt canran yn Chwefror 2012 (33% i 42%).

Fel yr adroddwyd mewn blynyddoedd blaenorol, cofnodwyd cyfran sylweddol uwch o wsteion busnes yn y De Ddwyrain nag mewn rhanbarthau eraill (40% o gymharu gyda 12% yn y De Orllewin). Eto, dylid nodi nad yw'r holl gyfranogwyr yn rhoi'r wybodaeth yma, felly mae canlyniadau yn fwy amrywiol na'r cyfraddau defnydd cyffredinol.

Ffigur 4-8 - Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast - Canran Cyfartalog Blynyddol Gwsteion Busnes yn ôl Rhanbarth 2010– 2012 (%)



Yn 2012, sefydliadau yn y De ddangosodd yr amrywiad mwyaf o gymharu â 2011 gyda chynnydd o saith pwynt canran dros y cyfnod yn y canran cyfartalog blynyddol o wsteion busnes yn y De Ddwyrain (33% i 40%) a chynnydd yn y gyfran gyfartalog flynyddol o wsteion busnes yn y De Orllewin, a gododd o 7% yn 2011 i 12% yn 2012 ar gyfer y rhanbarth. Cynyddodd y gyfradd ar gyfer y Gogledd Orllewin hefyd (o 13% yn 2011 i 17% yn 2012), tra cofnodwyd gostyngiad bychan ar gyfer sefydliadau yn y Canolbarth (19% yn 2011 i 18% yn 2012). Eto, dylid nodi nad yw pob cyfranogwr yn rhoi'r wybodaeth yma, felly mae canlyniadau'n amrywio mwy na chyfraddau defnydd cyffredinol.

Dadansoddiad Manwl o'r Prif Ganlyniadau


Mae'r adran yma o'r adroddiad yn edrych yn fwy manwl ar wahanol fathau o dai llety a sefydliadau gwely a brecwast a gyfrannodd at yr arolwg a'r effaith, os bu effaith, a gafodd y ffactorau hyn ar lefelau defnydd gwelyau ac ystafelloedd.

Defnydd yn ôl Maint Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast

Oherwydd maint bach y sampl mewn llawer o'r categorïau maint mwy, dim ond ar gyfer dau categori o dai llety a sefydliadau gwely a brecwast: 1-3 ystafell a 4-10 ystafell y cyflwynir cyfraddau defnydd.

Cyflwynir ffigurau cyfartalog misol defnydd gwelyau ac ystafelloedd yn ôl maint tai llety a sefydliadau gwely a brecwast yn Atodiad 2b a 2c.

Ffigur 4-9 - Defnydd Blynyddol yn ôl Maint Tŷ Llety/Sefydliad Gwely a Brecwast - 2012 (%)



Fel yr adroddwyd yn flaenorol ar gyfer y sector yma ac ar gyfer gwestai, byddai'n ymddangos fod perthynas gadarnhaol rhwng cyfraddau defnydd a maint sefydliad. Cofnododd sefydliadau gyda 4-10 ystafell gyfraddau cyfartalog blynyddol o 30% a 36% ar gyfer defnydd ystafelloedd a gwely o gymharu gyda 23% a 29% yn yr un drefn ymysg rhai gyda 1-3 ystafell. Mae'n debygol y bydd y defnydd uchaf ymhlith y sefydliadau hyn ymysg rhai gyda 1-3 ystafell. Mae'r defnydd uwch ymysg y sefydliadau hyn yn debygol o fod yn ganlyniad nifer o ffactorau yn cynnwys y ffaith fod sefydliadau mwy'n debycach o fod ar agor drwy'r flwyddyn i gyd a hefyd yn fwy tebygol o ddenu gwesteion busnes.

Tabl 4-3 - Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd Blynyddol Ystafelloedd yn ôl Maint Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast (%)


	Defnydd Cyfartalog Blynyddol Ystafelloedd										
	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012
1-3 ystafell	33	34	36	36	34	33	31	30	32	27	29
4-10 ystafell	45	45	48	48	47	47	40	43	40	37	36

Er bod cyfradd cyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd yn parhau'n uwch ar gyfer sefydliadau mwy (4-10 ystafell) nag ar gyfer rhai gyda llai o ystafelloedd yn 2012, cofnododd y sefydliadau hyn ostyngiad bach yn eu cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafell (37% yn 2011 i 36% yn 2012). O gymharu, cynyddodd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd gyda rhai rhwng 1 a 3 ystafell dros yr un cyfnod rhwng 27% a 29%.

Defnydd yn ôl Tariff


Fel yn yr arolwg gwestai, mae'r ffigurau tariff a ddefnyddiwyd yn yr arolwg yn cyfeirio at y swm a godir fesul person am ystafell ddwbl neu ystafell gefell, yn cynnwys brecwast. Rhoddir manylion y lefelau misol defnydd ystafelloedd a gwelyau ar gyfer pob un o'r categorïau tariff a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad yn Atodiad 2b a 2c a 2c yr adroddiad. Dylid nodi, oherwydd maint y sampl, mai dim ond ar gyfer sefydliadau gyda thariff o fwy na £20 y cyflwynir canlyniadau ac na chânt eu cyflwyno ar gyfer y rhai sy'n codi £50 neu fwy.

Mae Ffigur 4-10 islaw'n cyflwyno ffigurau defnydd blynyddol gwely ac ystafelloedd yn ôl tariff ar gyfer 2012. Er ei bod wedi ymddangos mewn blynyddoedd blaenorol fod cydberthyniad cadarnhaol rhwng lefelau tariff a defnydd, roedd mwy o debygrwydd yn y cyfraddau a gofnodwyd ar gyfer y ddau fand tariff uwch a ddangosir islaw yn 2012. O gymharu gyda'r rhai sy'n codi £20-£29.99, roedd cyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd gwelyau ar gyfer y rhai'n codi dros £30 wyth i naw pwynt canran yn uwch, tra bod eu cyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd ystafelloedd saith pwynt canran yn uwch yn 2012.

Ffigur 4-10 - Defnydd Blynyddol yn ôl Tariff Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast – 2012 (%)

Mae Ffigur 4-11 islaw'n cyflwyno cyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd gwelyau yn ôl tariff rhwng 2004 a 2012. Dylid nodi, fel canlyniad i newidiadau yn y bandiau tariff a ddefnyddir mewn dadansoddiad, nad yw ffigurau cymharol cyn hyn ar gael ac oherwydd meintiau sampl nid yw canlyniadau ar gyfer rhai categorïau ar gael ar gyfer blynyddoedd blaenorol.

Ffigur 4-11 - Tueddiadau mewn Cyfraddau Blynyddol Defnydd Ystafelloedd yn ôl Tariff Gwestai/Sefydliadau Gwely a Brecwast (%)



Rhwng 2011 a 2012, parhaodd cyfraddau cyfartalog blynyddol defnyddio ystafelloedd ar gyfer sefydliadau'n codi £30-£39.99 a'r rhai'n codi £40-£49.99 yn wastad (y ddau yn 35%). Yn dilyn gostyngiad mewn cyfraddau flwyddyn-ar-flwyddyn rhwng 2006 a 2011, cofnododd y rhai'n codi £20-£29.99 gynydd o bedwar pwynt canran yn 2012, a ddaeth â chyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd ar gyfer y sefydliadau hyn i 28% yn 2012.


Roedd meintiau'r samplau ar gyfer sefydliadau'n codi dan £20 a'r rhai'n codi £50 neu fwy yn rhy fach i sylwi arnynt.

Defnydd yn ôl lleoliad

Cafodd cyfraddau defnydd eu dadansoddi yn ôl lleoliad y tai llety a sefydliadau gwely a brecwast - mewn dinas/tref fawr, tref fach, ar lan y môr neu mewn lleoliadau gwledig/pentref. Cyflwynir lefelau defnydd misol gwely a brecwast ar gyfer pob math o leoliad yn Atodiad 2b a 2c.

Yn 2010 a 2011, roedd y cyfraddau defnydd uchaf mewn ardaloedd glan môr, fodd bynnag, roedd y cyfraddau a gofnododd ar gyfer sefydliadau yn yr ardaloedd hyn (defnydd cyfartalog blynyddol gwelyau, 36% cyfartalog blynyddol defnydd ystafelloedd) yn fwy gwastad â rhai mewn ardaloedd eraill yn 2012 nag mewn blynyddoedd blaenorol. Cofnododd y rhai mewn dinasoedd/trefi mawr gyfraddau cyfartalog blynyddol o 32% ar gyfer defnydd ystafelloedd a 45% ar gyfer defnydd ystafelloedd, yn debyg i'r rhai a gofnodwyd ar gyfer trefi bach (30% a 43% yn yr un drefn) ond yn uwch nag ar gyfer sefydliadau mewn lleoliadau gwledig/pentref (26% a 31% yn yr un drefn).

Ffigur 4-12 - Defnydd Blynyddol yn ôl Lleoliad Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast (%)



Tabl 4-4 - Tueddiadau mewn Cyfradd Defnydd Blynyddol Ystafelloedd yn ôl Lleoliad Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast (%)

	Defnydd Cyfartalog Blynyddol Ystafelloedd										
	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012
Tref/dinas fawr	67	70	63	64	67	64	57	54	42	*	45
Tref fach	43	39	38	42	41	40	38	40	37	44	43
Glan môr	37	44	46	47	47	46	44	42	46	42	36
Gwledig/pentref	41	40	41	41	40	36	33	33	34	30	31

* maint y sampl yn rhy fach i gyflwyno data


Yn dilyn y gostyngiad o bedwar pwynt canran rhwng 2010 a 2011, gostyngodd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd ar gyfer sefydliadau mewn glan môr gan chwe phwynt canran arall yn 2012 i 36%. Arhosodd y cyfraddau a gofnodwyd gan y rhai mewn lleoliadau trefi bach a gwledig/phentref yn debyg yn 2012 i 2011, tra dangosodd cyfradd dinas/tref fawr ar gyfer 2012 (45%) gynnydd ar ffigur o 42% (sampl 2011 yn rhy fach i'w ddadansoddi).

Defnydd yn ôl Graddiad

Fel gyda gwestai, dadansoddwyd cyfraddau defnydd ar gyfer tai llety a sefydliadau gwely a brecwast yn ôl eu graddiad dan y Cynllun Graddio Seren a weinyddir gan Croeso Cymru.

Mae ffigur 4-13 islaw'n cyflwyno ffigurau blynyddol defnydd gwelyau yn ôl graddiad ar gyfer 2012. Oherwydd maint bach sampl sefydliadau gyda 1 a 2 seren, nid oes dadansoddiad ar gyfer y categorïau graddio hyn. Dylid nodi nad yw pob sefydliad yn rhoi gwybodaeth ar raddiad ac felly na chafodd pawb eu cynnwys yn y dadansoddiad yma.


Ffigur 4-13 - Defnydd yn ôl graddiad Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast 2012 (%)



Fel y gwelir yn y siart uchod ac mewn blynyddoedd blaenorol, roedd yn gyffredinol gydberthyniad cadarnhaol rhwng lefelau defnydd a graddiad, gyda sefydliadau heb raddiad yn cofnodi'r cyfartaledd blynyddol isaf o gyfraddau defnyddio gwelyau ac ystafelloedd o 17 a 19 pwynt canran yn yr un drefn. Cofnododd sefydliadau gyda graddiad 5 seren gyfradd gyfartalog blynyddol is ar gyfer defnydd gwelyau na rhai gyda 4 seren (28% a 31% yn yr un drefn), yn ogystal â chyfradd gyfartalog flynyddol is ar gyfer defnydd ystafelloedd (32% a 37% yn yr un drefn).

Mae Ffigur 4-14 islaw'n dangos y tueddiadau mewn cyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd ystafelloedd yn ôl graddiad. Dylid nodi na chyflwynwyd data ar gyfer sefydliadau 1 a 2 seren ac, am rai blynyddoedd, sefydliadau 5 seren oherwydd meintiau cyfyngedig samplau.

Ffigur 4-14 - Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd Blynyddol Ystafelloedd yn I graddiad Tai Llety/sefydliadau Gwely a Brecwast (%)



Rhwng 2011 a 2012, cofnodwyd y gostyngiad mwyaf ar gyfer sefydliadau heb raddiad, gyda chyfradd o 24% yn 2011 a 19% yn 2012 ar gyfer y sefydliadau hyn. Cofnododd rhai gyda graddiad 3 seren a 4 seren gynydd bychan yn eu cyfraddau cyfartalog ar gyfer defnydd ystafelloedd (un pwynt canran yr un), tra parhaodd y gyfradd hon ostwng ar gyfer sefydliadau 5 seren yn 2012 (35% yn 2011 i 32% yn 2012).

Cyflwynir ffigurau cyfartalog misol a blynyddol ar gyfer defnydd gwelyau ar gyfer y gwahanol raddiadau yn Atodiad 2b a 2c yr adroddiad.


Pob Llety â Gwasanaeth

Mae Adran 5 yr adroddiad yn cyflwyno lefelau cyfartalog blynyddol defnydd gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer yr holl wahanol fathau o lety â gwasanaeth h.y. gwestai, tai llety a sefydliadau gwely a brecwast.

Defnydd Cyfartalog Blynyddol Gwelyau ac Ystafelloedd

Parhaodd canran cyfartalog blynyddol defnydd gwelyau ar gyfer pob llety â gwasanaeth yn gyson ar 38% rhwng 2008 a 2011, gyda chynnydd bychan yn 2012 yn dod â'r gyfradd i 39%. Roedd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd yn 52%, cyfradd sydd wedi parhau'n gyson ar gyfer pob llety â gwasanaeth ers 2008.


Ffigur 5-1 - Llety â Gwasanaeth - Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd - Cyfartaleddau Blynyddol (%)



Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd

Caiff y cyfraddau defnydd misol gwely ac ystafelloedd ynghyd â chyfartaleddau blynyddol a gofnodwyd ar gyfer pob llety â gwasanaeth eu cyflwyno yn Ffigur 5-2 islaw.

Ffigur 5-2 - Pob Llety â Gwasanaeth - Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd - 2012 (%)



Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae natur dymhorol eto yn amlwg yng nghyfraddau misol defnydd ar gyfer pob llety â gwasanaeth. Rhwng Mai a Medi, roedd y gyfradd gyfartalog defnydd gwelyau yn yr ystod 42% - 55%, a chyfradd gyfartalog defnydd ystafelloedd yn yr ystod 57% - 67% yn yr un cyfnod.


Canran Gwesteion Tramor

Gofynnwyd i weithredwyr ddynodi nifer y gwesteion sy'n aros yn eu sefydliad bob nos yn ôl p'un ai oeddent yn dod o'r Deyrnas Unedig neu dramor ar eu ffurflen defnydd misol. Dylid nodi nad yw pob ymatebydd yn rhoi'r wybodaeth yma, felly dylid bod yn ofalus wrth drin y canlyniadau.

O ddechrau 2008, ni chafodd gwybodaeth ar gyfer gwesteion o'r Deyrnas Unedig a thramor oedd yn cyrraedd ei gasglu mwyach, sydd wedi effeithio ar y ffordd y cafodd y data ar gyfer gwesteion tramor ei gyfrif. Yn flaenorol, gofynnwyd i sefydliadau roi gwybodaeth ar nifer y gwesteion newydd oedd yn cyrraedd bob dydd (y Deyrnas Unedig a thramor) ac fe wnaethom gyflwyno'r canran o westeion tramor yn seiliedig ar gyfanswm nifer y gwesteion newydd yn cyrraedd. Ni chaiff yr wybodaeth honno ei chasglu'n awr, felly fel canlyniad, caiff y canran o arosiadau tramor ei gyflwyno fel canran o nosweithiau gwely (yn seiliedig ar gyfanswm nosweithiau gwely).

Yng ngolau'r newidiadau hyn ac i sicrhau cysondeb y caiff ffigurau tramor ar draws blynyddoedd eu cymharu'n seiliedig ar yr un fethodoleg, gostyngwyd faint o wybodaeth tueddiad a gyflwynwyd ar gyfer gwesteion tramor ac mae ffocws yr adroddiad yma ar ganlyniadau 2008 i 2012.

Ffigur 5-3 – Pob Llety â Gwasanaeth - Canran Nosweithiau Gwely Tramor – 2008 - 2012 (%)



Roedd canran cyfartaledd blynyddol gwesteion tramor tua 7% rhwng 2008 a 2001, gyda gostyngiad bach yn 2012 i 6%. Bu peth amrywiad pan y'u dadansoddwyd yn ôl misoedd unigol dros y pum mlynedd ddiwethaf, yn neilltuol y tu allan i'r prif dymor twristiaeth. Roedd canran y gwesteion tramor a gofnodwyd yn Rhagfyr 2008 a 2009 yn 4%, cyfradd a gynyddodd i 7% yn 2010 cyn gostwng i 2011 a chodi ychydig eto yn 4% yn 2012.

Bythynnod a Fflatiau Hunanddarpar

Mae'r adran yma'n amlinellu'r canlyniadau defnydd allweddol ar gyfer bythynnod a fflatiau hunanddarpar ac yn crynhoi'r wybodaeth a gasglwyd o sampl o weithredwyr ac asiantaethau annibynnol wedi'u dilysu sy'n cynnig bythynnod a fflatiau hunanddarpar yng Nghymru. Cynlluniwyd y sampl i fod yn fras gynrychioladol o'r ystod o lety wedi'i ddodrefnu a gaiff ei osod drwy weithredwyr o'r fath. Caiff defnydd ei fesur ar lefel yr eiddo unigol drwy fynegi nifer yr wythnosau a osodwyd bob mis fel cyfran o'r wythnosau a'r unedau sydd ar gael i'w rhentu.

Dylid nodi, yn 2007, nad oedd sampl digonol o asiantaethau hunanddarpar (asiantaethau gosod yn cynnig bythynnod a fflatiau hunanddarpar yng Nghymru) i gynnal dadansoddiad ar wahân. Am y rheswm yma, adroddir data asiantaeth ar gyfer 2008 ymlaen.

Defnydd Misol Unedau

Mae Tabl 6-1 islaw'n cyflwyno cyfraddau blynyddol defnydd unedau ar gyfer 2008 i 2012 ar gyfer gweithredwyr annibynnol a gweithredwyr asiantaeth.

Tabl 6-1- Defnydd Misol Unedau – Bythynnod a Fflatiau POB (%)

	Defnydd Cyfartalog Unedau				
	2008	2009	2010	2011	2012
Ionawr	24	20	17	29	32
Chwefror	37	43	34	42	41
Mawrth	39	41	37	38	45
Ebrill	48	51	49	63	55
Mai	54	55	53	65	48
Mehefin	57	56	60	65	65
Gorffennaf	64	67	67	71	68
Awst	81	75	81	85	81
Medi	62	61	60	72	64
Hydref	50	45	31	55	50
Tachwedd	25	22	22	31	36
Rhagfyr	36	48	35	32	38
<i>Cyfartaledd Mai-Hydref</i>	<i>61</i>	<i>60</i>	<i>59</i>	<i>69</i>	<i>63</i>
<i>Cyfartaledd blynyddol</i>	<i>48</i>	<i>50</i>	<i>45</i>	<i>54</i>	<i>53</i>

Mae'r gyfradd defnydd misol ar gyfer unedau ym mhob eiddo yw 2012, fel mewn blynyddoedd blaenorol, yn amrywio'n sylweddol ar hyd y flwyddyn, gan ddangos natur dymhorol y sector. Cofnodwyd cyfradd gyfartalog fisol defnydd unedau o 32% ar gyfer Ionawr 2012, ffigur a gynyddodd i 81% yn Awst cyn gostwng i 36% yn Nhachwedd a 38% yn Rhagfyr. Rhwng Mawrth ac Ebrill 2012, cynyddodd cyfradd gyfartalog fisol defnydd unedau gan ddeg pwynt canran o 45% i 55% yn yr un drefn. Mae hyn yn gynydd llai nag a gofnodwyd yn 2011, mae'n debyg oherwydd bod y Pasg yn gynnar ac effaith amodau tywydd gwaelach yn Ebrill 2012.

Rhwng 2010 a 2011, cynyddodd cyfradd gyfartalog defnydd unedau Mai i Hydref gan ddeg pwynt canran i 69%, yn bennaf oherwydd cyfraddau defnydd uwch ym Mai a Medi 2011. Mae cyfartaledd Mai i Hydref 2012 (63%), er yn chwe phwynt canran yn is nag yn 2011, yn parhau'n uwch na'r cyfraddau cymharol a gofnodwyd rhwng 2008 a 2010. Cofnodwyd gostyngiadau ar nifer o fisoedd yn y cyfnod Mai i Hydref, yn arbennig ym Mai 2012 lle cofnodwyd cyfradd o 48% o gymharu â 65% yn 2011. Mae hyn oherwydd cyfuniad o newidiadau sampl a chofnodi cyfraddau is gan nifer o weithredwyr ar gyfer y mis hwn yn 2012 o gymharu â 2011.

Roedd cyfradd flynyddol defnydd unedau 2012 un pwynt canran yn is na chyfradd 2011 o 54%, a'r ail ddefnydd cyfartalog blynyddol uchaf o unedau a gofnodwyd ers 2008. Yng ngoleuni'r gostyngiad yn y cyfartaledd Mai i Hydref yn 2012, medrir gweld bod tebygrwydd rhwng cyfartaleddau blynyddol 2011 a 2012 yn cael ei ddylanwadu gan gynydd y tu allan i brif dymor yr haf. Cofnodwyd y cynnydd mwyaf ym Mawrth (38% yn 2011 i 45% yn 2012) a Rhagfyr (32% yn 2011 i 38% yn 2012).

Mae Tabl 6-2 islaw'n cyflwyno cyfraddau defnydd blynyddol 2012 ar gyfer gweithredwyr annibynnol. Fel y disgrifiwyd yn gynharach yn yr adroddiad, rhoddwyd data o 2007 i 2007 i ddangos tueddiadau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Tabl 6-2 - Defnydd Misol Unedau - Bythynnod a Fflatiau - Annibynnol (%)

	Defnydd Cyfartalog Unedau					
	2007	2008	2009	2010	2011	2012
Ionawr	22	23	24	22	24	22
Chwefror	40	40	39	34	39	32
Mawrth	43	43	37	36	32	31
Ebrill	54	48	55	56	62	53
Mai	69	61	62	58	60	46
Mehefin	76	67	70	67	59	62
Gorffennaf	86	76	80	73	69	67
Awst	93	87	88	86	87	79
Medi	73	69	72	67	69	62
Hydref	60	52	55	49	48	47
Tachwedd	32	26	27	27	25	32
Rhagfyr	39	42	36	34	30	31
<i>Cyfartaledd Mai-Hydref</i>	<i>76</i>	<i>69</i>	<i>71</i>	<i>67</i>	<i>65</i>	<i>61</i>
<i>Cyfartaledd blynyddol</i>	<i>57</i>	<i>53</i>	<i>54</i>	<i>51</i>	<i>50</i>	<i>49</i>

Ac eithrio 2009, mae cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd unedau ar gyfer gweithredwyr annibynnol wedi gostwng bob blwyddyn ers 2007. Roedd cyfartaledd blynyddol 2012 yn 49%, gostyngiad o un pwynt canran o ffigur 2011 o 50%. Cofnodwyd gwahaniaeth mwy yng nghyfartaledd Mai i Hydref rhwng 2011 a 2012 (65% a 61% yn yr un drefn). Pan y'u dadansoddwyd yn ôl mis, cofnodwyd y gostyngiadau mwyaf rhwng 2011 a 2012 ar gyfer misoedd Ebrill (naw pwynt canran) a Mai (14 pwynt canran). Mae'n debygol fod y ffaith fod cyfnod Gwyliau'r Pasg yn gynnar a thywydd gwael wedi cael effaith ar gyfraddau defnydd yn ystod y misoedd hynny, yn ogystal â newidiadau yn y sampl. Fodd bynnag, cafodd y flwyddyn ddiwedd mwy cadarnhaol nag yn 2011, gyda'r gyfradd ar gyfer Tachwedd 2012 (32%) saith pwynt canran yn uwch na'r hyn a gofnodwyd ar gyfer yr un mis yn 2011 (25%). Mae hyn yn dychwelyd i'r un gyfradd yn Nhachwedd 2007 (32%).

Mae Tabl 6-3 drosodd yn cyflwyno ffigurau defnydd blynyddol ar gyfer llety hunanddarpar a osodir gan asiantaethau ar gyfer 2008 i 2012. Fel y nodwyd yn flaenorol, nid yw data defnydd ar gyfer y mathau hyn o eiddo hunanddarpar ar gael ar gyfer 2007.

Tabl 6-3 - Defnydd Misol Unedau - Bythynnod a Fflatiau - Asiantaethau (%)

Defnydd Cyfartalog Unedau					
	2008	2009	2010	2011	2012
Ionawr	24	16	13	34	41
Chwefror	36	45	35	46	48
Mawrth	35	44	39	44	57
Ebrill	47	49	44	64	58
Mai	51	52	49	69	52
Mehefin	51	43	56	70	70
Gorffennaf	59	54	64	73	69
Awst	78	63	78	84	83
Medi	58	51	56	75	68
Hydref	44	36	21	62	56
Tachwedd	23	17	20	40	42
Rhagfyr	29	57	38	34	50
<i>Cyfartaledd Mai - Hydref</i>	<i>57</i>	<i>50</i>	<i>54</i>	<i>72</i>	<i>66</i>
<i>Cyfartaledd blynyddol</i>	<i>45</i>	<i>44</i>	<i>43</i>	<i>58</i>	<i>58</i>

Yn 2012, roedd cyfradd gyfartalog unedau misol ar gyfer eiddo a osodwyd gan asiant yn amrywio o 41% yn Ionawr i 83% yn Awst i 42% yn Nhachwedd a 50% yn Rhagfyr. Tra cofnodwyd y cyfartaleddau misol uchaf yn ystod misoedd haf Mehefin, Gorffennaf ac Awst (70%, 69% a 83% yn yr un drefn), cofnodwyd y cynnydd mwyaf rhwng 2011 a 2012 y tu allan i brif dymor yr haf gyda chynnydd o naw pwynt canran yn Ionawr 2012 (34% i 41%) a 14 pwynt canran yn Rhagfyr (34% i 50%).

Er i gyfartaledd defnydd unedau tymhorol Mai i Hydref ostwng i chwe phwynt canran rhwng 2011 a 2012 (72% a 66% yn yr un drefn), cyfradd 2012 yw'r cyfartaledd ail uchaf a gofnodwyd ar gyfer Mai i Hydref ers 2008. Parhaodd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd unedau yn wastad gyda 2011 (58%), y gyfradd uchaf a gofnodwyd ar gyfer eiddo a osodwyd gan asiantaethau dros y pum mlynedd diwethaf.

Dylid nodi fod nifer yr unedau y cyflwynwyd data ar eu cyfer gan asiantaethau yn amrywio ac felly mae'r cyfraddau defnydd misol yn tueddu i ddangos amrywiad rhesymol rhwng blynyddoedd.

Tueddiadau Rhanbarthol

Mae'r adran yma o'r adroddiad yn crynhoi'r lefelau defnydd ar draws gwahanol ranbarthau Cymru ar gyfer bythynnod a fflatiau. Gan nad oedd ffigurau tueddiad defnydd 2007 ar gael ar gyfer llety hunanddarpar a osodwyd gan asiantaethau, rydym wedi cyflwyno data ar gyfer 2008 ymlaen, a chyflwynir ffigurau defnydd ar gyfer gweithredwyr annibynnol o 2007 ymlaen.

Tabl 6-4 - Defnydd Misol Unedau – Gogledd Cymru - Annibynnol (%)

	Defnydd Cyfartalog Unedau					
	2007	2008	2009	2010	2011	2012
Ionawr	25	25	31	23	31	25
Chwefror	45	42	40	44	42	36
Mawrth	42	45	38	39	31	38
Ebrill	59	47	53	61	62	57
Mai	73	61	71	68	68	58
Mehefin	83	70	74	73	62	69
Gorffennaf	90	76	85	78	72	65
Awst	92	85	88	86	87	81
Medi	77	72	82	73	75	61
Hydref	63	52	68	57	55	47
Tachwedd	37	25	38	31	24	34
Rhagfyr	40	38	38	36	30	28
<i>Cyfartaledd Mai – Hydref</i>	<i>80</i>	<i>69</i>	<i>78</i>	<i>72</i>	<i>70</i>	<i>64</i>
<i>Cyfartaledd blynyddol</i>	<i>61</i>	<i>53</i>	<i>59</i>	<i>56</i>	<i>53</i>	<i>49</i>

Tabl 6-5 - Defnydd Misol Unedau - Gogledd Cymru - 2008 - 2012 POB (%)

	Defnydd Cyfartalog Unedau				
	2008	2009	2010	2011	2012
Ionawr	21	29	23	33	35
Chwefror	41	38	44	45	40
Mawrth	36	38	42	42	45
Ebrill	49	58	61	63	58
Mai	49	66	67	69	53
Mehefin	56	70	69	69	69
Gorffennaf	59	81	74	73	68
Awst	68	89	85	85	83
Medi	56	77	75	75	68
Hydref	48	60	58	60	55
Tachwedd	23	38	36	35	41
Rhagfyr	32	44	37	33	47
<i>Cyfartaledd Mai – Hydref</i>	<i>56</i>	<i>74</i>	<i>71</i>	<i>72</i>	<i>66</i>
<i>Cyfartaledd blynyddol</i>	<i>45</i>	<i>57</i>	<i>56</i>	<i>57</i>	<i>56</i>

Bu'r gyfradd defnydd cyfartalog unedau ar gyfer pob eiddo yn y Gogledd yn yr ystod 56%-57% ers 2009, gyda chyfradd 2012 o 56% yn ostyngiad bach ar gyfradd 2011 (57%). Mae cyfartaledd Mai i Hydref wedi amrywio mwy dros y blynyddoedd, gyda gostyngiadau wedi'i gofnodi ar gyfer y gyfradd yma bob blwyddyn ers 2009. Mae cyfradd defnydd unedau cyfartalog Mai i Hydref 2012 o 66% yn chwe phwynt canran yn is na chyfradd 2011 o 72%. Cofnodwyd y cynnydd mwyaf ar gyfer misoedd unigol rhwng 2011 a 2012 yn Nhachwedd (chwe phwynt canran) a Rhagfyr (14 pwynt canradd).

Dylid nodi fod nifer yr unedau y cyflwynwyd data ar ei gyfer gan asiantaethau yn amrywiol ac felly mae'r cyfraddau defnydd misol yn tueddu i ddangos amrywiad rhesymol rhwng blynyddoedd.

Tabl 6-6 - Defnydd Misol Unedau – Canolbarth Cymru - Annibynnol (%)

	Defnydd Cyfartalog Unedau					
	2007	2008	2009	2010	2011	2012
Ionawr	24	25	16	16	18	18
Chwefror	41	40	40	27	38	33
Mawrth	42	41	40	38	28	31
Ebrill	48	53	59	60	65	55
Mai	59	66	64	58	56	46
Mehefin	70	63	70	66	61	63
Gorffennaf	85	78	81	74	70	74
Awst	93	89	91	88	91	86
Medi	73	68	70	66	71	66
Hydref	61	54	54	44	51	46
Tachwedd	24	27	23	27	28	29
Rhagfyr	35	46	31	37	34	32
<i>Cyfartaledd Mai – Hydref</i>	<i>74</i>	<i>70</i>	<i>72</i>	<i>66</i>	<i>67</i>	<i>64</i>
<i>Cyfartaledd blynyddol</i>	<i>55</i>	<i>54</i>	<i>53</i>	<i>50</i>	<i>51</i>	<i>48</i>

Tabl 6-7 - Defnydd Misol Unedau - Canolbarth – 2008 - 2012 POB (%)

	Defnydd Cyfartalog Unedau				
	2008	2009	2010	2011	2012
Ionawr	6	12	12	18	18
Chwefror	18	51	32	38	32
Mawrth	32	47	38	28	31
Ebrill	46	38	44	65	55
Mai	63	38	47	56	46
Mehefin	65	39	55	61	66
Gorffennaf	61	50	64	70	73
Awst	84	60	78	91	86
Medi	68	46	52	71	65
Hydref	54	33	16	51	47
Tachwedd	27	13	18	28	30
Rhagfyr	46	54	37	34	32
<i>Cyfartaledd Mai – Hydref</i>	<i>66</i>	<i>44</i>	<i>52</i>	<i>67</i>	<i>64</i>
<i>Cyfartaledd blynyddol</i>	<i>48</i>	<i>43</i>	<i>41</i>	<i>51</i>	<i>49</i>

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd cyfraddau defnydd yn y Canolbarth ar gyfer pob uned yn amrywio'n sylweddol ar draws y flwyddyn yn 2012. Roedd cyfradd Ionawr 2012 yn 18%, ffigur a gynyddodd i 86% yn Awst cyn gostwng i 30% yn Nhachwedd 2012. Roedd cyfartaledd Mai i Hydref 2012 yn 64%, sy'n ostyngiad o dri phwynt canran ar gyfradd 2011 o 67% ond sy'n parhau'n uwch na'r cyfraddau a gofnodwyd yn 2009 (44%) a 2010 (52%). Cofnodwyd gostyngiad llai yn y gyfradd gyfartalog flynyddol ar gyfer defnydd unedau, sydd ar 49% yn ddau bwynt canran yn is nag yn 2011 (51%) ond y cyfartaledd blynyddol ail uchaf a gofnodwyd ar gyfer pob uned hunanddarpar yn y Canolbarth ers 2008.

Yn ôl mis, cofnodwyd gostyngiad o ddeg pwynt canran yn Ebrill a Mai 2012 o gymharu gyda'r un misoedd yn 2011 (55% v 65% a 46% v 56% yn yr un drefn). Mae'n debygol i'r ffaith fod cyfnod Gwyliau'r Pasg yn gynnwys a thywydd gwael ddylanwadu ar y gostyngiadau hyn.

Dylid nodi fod nifer yr unedau y cyflwynwyd data ar ei gyfer gan asiantaethau yn amrywio ac felly mae'r cyfraddau defnydd misol yn tueddu i ddangos amrywiad rhesymol rhwng blynyddoedd.

Tabl 6-8 - Defnydd Misol Unedau – De Ddwyrain Cymru - Annibynnol (%)

	Defnydd Cyfartalog Unedau					
	2007	2008	2009	2010	2011	2012
Ionawr	38	25	28	54	37	32
Chwefror	51	55	28	52	45	33
Mawrth	47	43	28	32	36	32
Ebrill	50	57	54	53	54	52
Mai	66	64	46	53	56	53
Mehefin	69	63	68	58	56	63
Gorffennaf	76	77	83	67	67	74
Awst	87	89	83	75	74	73
Medi	58	75	67	54	57	66
Hydref	63	73	58	57	45	70
Tachwedd	54	49	38	40	32	46
Rhagfyr	64	63	59	57	38	42
<i>Cyfartaledd Mai - Hydref</i>	-	73	67	61	59	67
<i>Cyfartaledd blynyddol</i>	60	61	53	55	50	56

Tabl 6-9- Defnydd Misol Unedau – De Ddwyrain Cymru – 2008 - 2012 POB (%)

	Defnydd Cyfartalog Unedau				
	2008	2009	2010	2011	2012
Ionawr	25	28	54	37	43
Chwefror	56	28	52	45	54
Mawrth	47	29	32	36	66
Ebrill	57	54	53	54	52
Mai	64	46	53	56	53
Mehefin	63	68	58	56	63
Gorffennaf	77	83	67	67	74
Awst	89	83	75	74	73
Medi	75	67	54	57	66
Hydref	73	58	57	45	70
Tachwedd	49	38	40	32	46
Rhagfyr	63	59	57	38	42
<i>Cyfartaledd Mai - Hydref</i>	73	67	61	59	67
<i>Cyfartaledd blynyddol</i>	61	53	55	50	57

Dechreuodd 2012 gyda chyfradd gyfartalog defnydd unedau o 43% yn Ionawr ar gyfer yr holl unedau yn y De Ddwyrain, cyfradd a gododd i 74% yng Ngorffennaf cyn gostwng i 42% yn Rhagfyr. Mae cyfraddau ar gyfer y De Ddwyrain wedi tueddu i amrywio dros y blynyddoedd, yn neilltuoel rhwng misoedd Ionawr a Chwefror. Rhwng 2008 a 2011, gostyngodd cyfartaledd Mai i Hydref ar gyfer y De

Ddwyrain o 73% i 59%, gyda chynnydd o wyth pwynt canran yn 2012 yn dychwelyd y gyfradd yma i 67% (cofnodwyd hefyd yn 2009).

Dylid nodi nad oedd unrhyw ddata ar gael ar gyfer unedau hunanddarpar a osodwyd gan asiantaethau yn rhanbarth y De Ddwyrain rhwng Ebrill a Rhagfyr 2012, ac adlewyrchir hynny yn y cyfraddau defnydd a gofnodwyd ar gyfer Ionawr i Mawrth 2012.

Tabl 6-10- Defnydd Misol Unedau – De Orllewin – Annibynnol (%)

	Defnydd Cyfartalog Unedau					
	2007	2008	2009	2010	2011	2012
Ionawr	13	16	20	16	17	22
Chwefror	33	32	40	25	34	28
Mawrth	43	40	36	32	34	29
Ebrill	51	44	56	50	61	50
Mai	70	58	53	52	59	40
Mehefin	73	64	67	64	58	60
Gorffennaf	84	74	73	70	66	61
Awst	96	90	86	87	87	77
Medi	70	64	65	65	67	58
Hydref	55	44	44	45	41	39
Tachwedd	28	22	17	20	21	25
Rhagfyr	34	39	29	24	24	23
<i>Cyfartaledd Mai – Hydref</i>	-	66	65	64	63	56
<i>Cyfartaledd blynyddol</i>	54	49	49	46	48	46

Mae lefelau defnydd yn y De Orllewin unwaith eto wedi dangos natur dymhorol y sector, gan amrywio o 22% yn Ionawr i 77% yn Awst cyn gostwng i 23% yn Rhagfyr. Yn flaenorol roedd cyfartaledd Mai i Hydref ar gyfer y rhanbarth yma'n weddol gyson (yn yr ystod 63% - 65% rhwng 2008 a 2011), fodd bynnag gostyngodd y gyfradd yma i 56% yn 2012. Roedd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd unedau ar gyfer y rhanbarth yma yn 2012 yn 46%, cyfradd gyfartal i 2010 ond ddau bwynt canran yn is na chyfradd 2011 o 48%.

Fel y cofnodwyd ar gyfer rhanbarthau eraill yng Nghymru, cofnodwyd y gostyngiadau mwyaf rhwng 2011 a 2012 ar gyfer gweithredwyr yn y De Orllewin yn Ebrill (11 pwynt canradd) a Mai (19 pwynt canradd). Mae'n debygol i'r ffaith fod cyfnod Gwyliau'r Pasg yn gynnar a thywydd gwael ddylanwadu ar y gostyngiadau hyn.

Dylid nodi fod nad oedd unrhyw ddata ar gael ar gyfer unedau hunanddarpar a osodwyd gan asiantaethau yn y De Orllewin yn ystod 2012. Yn ychwanegol, mae nifer yr unedau y cyflwynwyd data ar eu cyfer gan asiantaethau yn amrywio ac felly mae'r cyfraddau defnydd misol yn tueddu i ddangos amrywiad rhesymol rhwng blynyddoedd.

Defnydd yn ôl Lleoliad - Arfordirol v Mewndirol

Dadansoddwyd data defnydd ar gyfer unedau mewn lleoliadau arfordirol a mewndirol. Mae Tabl 6-9 islaw'n dangos cyfraddau defnydd ar gyfer gweithredwyr annibynnol ynghyd â data tueddiad 2007 i 2011.

Tabl 6-11- Defnydd Misol Unedau yn ôl Lleoliad - Annibynnol (%)

	Lleoliadau arfordirol Defnydd Unedau (%)						Lleoliadau mewndirol Defnydd Unedau (%)					
	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2007	2008	2009	2010	2011	2012
Ionawr	20	21	25	23	28	21	24	22	19	22	21	23
Chwefror	40	44	44	32	44	22	40	40	35	30	36	35
Mawrth	47	47	40	39	39	29	37	41	33	33	29	32
Ebrill	60	55	51	58	66	51	45	50	58	52	59	54
Mai	74	67	70	60	71	44	61	63	55	52	56	47
Mehefin	83	72	76	72	70	67	66	64	67	61	55	62
Gorffennaf	90	78	85	81	78	65	79	77	76	68	64	68
Awst	95	93	95	93	92	78	91	89	86	84	84	80
Medi	78	72	79	77	77	60	65	69	66	60	65	63
Hydref	62	49	58	58	55	31	56	55	49	43	45	52
Tachwedd	29	23	21	25	25	24	38	29	24	25	25	34
Rhagfyr	36	42	34	29	29	21	44	44	36	34	30	32
Cyfartaledd Blynyddol	60	55	57	54	56	45	54	54	50	47	47	50

Cyn 2012, cofnododd unedau mewn ardaloedd arfordirol gyfradd gyfartalog flynyddol uwch ar gyfer defnydd unedau nag unedau mewndirol. Fodd bynnag, yn 2012, unedau mewndirol gofnododd y cyfartaledd blynyddol uchaf, sydd ar 50% yn dri phwynt canran yn uwch na'r hyn a gofnodwyd ar gyfer yr unedau hyn yn 2010 a 2011 (47% yr un). Cafodd unedau mewndirol ddiwedd cryfach i'r flwyddyn yn 2012 nag yn y flwyddyn flaenorol, gyda chyfartaleddau unedau misol 2012 ar gyfer Hydref a Thachwedd saith a naw pwynt canran yn uwch yn yr un drefn na'r ffigur cymharol ar gyfer 2011.

Fodd bynnag, cofnododd unedau mewn ardaloedd arfordirol ostyngiad o 11 pwynt canran yn eu cyfradd gyfartalog flynyddol ar gyfer defnydd unedau yn 2012 (45% o gymharu gyda 56% yn 2011), gyda gostyngiadau wedi'u cofnodi ar gyfer y rhan fwyaf o fisoedd yn 2012 o gymharu gyda 2011. Bu'r gyfradd ar gyfer Rhagfyr yn gostwng am nifer o flynyddoedd, gan ostwng o 42% yn 2008 i 21% yn 2012.

Dylid nodi fod nifer yr unedau y cyflwynir data ar eu cyfer yn amrywio ac felly bu amrywiad rhesymol yn y cyfraddau defnydd misol rhwng blynyddoedd. Fodd bynnag, mae gan nifer o weithredwyr gyfraddau defnydd amlwg is yn 2012, ac adlewyrchir hynny yn y ffigurau a gyflwynwyd.

Tabl 6-12- Defnydd Misol Unedau yn ôl Lleoliad - POB (%)

	Lleoliadau arfordirol Defnydd Unedau (%)					Lleoliadau mewndirol Defnydd Unedau (%)				
	2008	2009	2010	2011	2012	2008	2009	2010	2011	2012
Ionawr	21	24	23	28	39	24	21	23	24	28
Chwefror	44	43	33	44	46	41	36	34	41	38
Mawrth	47	40	39	39	54	42	35	36	36	39
Ebrill	55	51	58	66	57	49	60	55	61	54
Mai	66	70	60	71	50	60	60	56	63	48
Mehefin	72	76	72	70	71	64	67	62	62	64
Gorffennaf	78	85	81	78	71	74	76	69	70	67
Awst	93	95	93	92	83	86	87	83	82	80
Medi	72	79	77	77	68	67	69	63	67	63
Hydref	49	58	58	55	48	50	50	45	47	52
Tachwedd	23	21	25	25	33	24	28	28	29	37
Rhagfyr	42	34	29	29	38	39	41	35	31	38
Cyfartaledd Blynyddol	55	56	54	56	55	52	52	49	51	52

Pan ddadansoddir yr holl unedau gyda'i gilydd, roedd y cyfartaledd blynyddol ar gyfer y rhai mewn ardaloedd arfordirol yn uwch nag a gofnodwyd ar gyfer unedau mewndirol (55% a 52% yn yr un drefn yn 2012). Cofnodwyd y gwahaniaeth mwyaf rhwng unedau arfordirol a mewndirol ym Mawrth, gyda chyfraddau o 54% a 39% yn yr un drefn. Mae hyn yn debyg o adlewyrchu'r ffaith fod llai o unedau arfordirol ar agor yn ystod Mawrth, gyda nifer o unedau ar gau ar gyfer y mis cyfan neu ran o'r mis.

Cofnododd unedau mewndirol gynnydd o wyth pwynt canran yn eu cyfradd gyfartalog defnydd unedau ar gyfer Tachwedd yn 2012 (29% yn 2011, 37% yn 2012). Mae'n bwysig cadw mewn cof, yn ychwanegol at y cyfraddau uwch a gofnodwyd ar gyfer y mis hwn yn 2012, nad oedd nifer o unedau ar agor am y mis cyfan a bod y gyfradd defnydd yn seiliedig yn unig ar y cyfnodau pan oedd unedau ar gael i'w gosod.

Dylid nodi fod nifer yr unedau y cyflwynir data ar eu cyfer yn amrywio ac felly bu amrywiad rhesymol yn y cyfraddau defnydd misol rhwng blynyddoedd. Fodd bynnag, mae gan nifer o weithredwyr cyfraddau defnydd amlwg is yn 2012, ac adlewyrchir hynny yn y ffigurau a gyflwynwyd.

Defnydd yn ôl Tariff

Cyflwynir y cyfraddau cyfartalog blynyddol ar gyfer defnydd unedau yn ôl tariff yn Nhabl 6-11 islaw. Caiff manylion y cyfraddau misol ar gyfer defnydd unedau yn ôl tariff wedi'u dadansoddi yn ôl gweithredwyr annibynnol/asiantaeth eu rhoi yn Atodiad 3a yr adroddiad.

Cofnododd unedau ym mhob band tariff gyfraddau tebyg ar gyfer defnydd cyfartalog unedau yn 2011 o 49% - 50%. Fodd bynnag, yn 2012, cofnodwyd mwy o wahaniaeth a gellir gweld perthynas gliriach rhwng tariff a chyfraddau defnydd. Cofnododd y rhai'n codi £500-£799.99 gyfradd gyfartalog defnydd unedau o 54% o gymharu gyda chyfartaledd o 42% ar gyfer y rhai'n codi llai na £300.

Table 6-13- Defnydd Cyfartalog Misol Unedau yn ôl Tariff (%)

	Tariff			
	Defnydd Unedau (%)			
	<£299.99	£300 -£499.99	£500 - £799.99	£800+
Ionawr	27	17	19	*
Chwefror	36	33	30	*
Mawrth	35	37	20	*
Ebrill	60	52	63	*
Mai	50	51	38	*
Mehefin	79	58	75	70
Gorffennaf	*	69	69	64
Awst	71	80	84	91
Medi	67	71	62	*
Hydref	49	51	52	*
Tachwedd	33	32	26	*
Rhagfyr	30	31	25	36
Cyfartaledd Blynyddol	42	49	54	*

*=sampl <5

Medrir gweld y cydberthyniad cliraf rhwng tariff a chyfraddau defnydd ar gyfer Awst 2010, lle cofnododd y rhai'n codi £299.99 neu lai gyfartaledd o 71% o gymharu gyda 80% ar gyfer rhai yn yr ystod £300-£499.99 a 84% ar gyfer rhai'n codi rhwng £500 a £799.99. Tueddai unedau yn y band tariff isaf gofnodi cyfraddau cyfartalog tebyg neu uwch ar gyfer defnyddiau unedau y tu allan i brif dymor yr haf, yn neilltuol yn Ionawr 2012 lle cofnodwyd cyfradd o 27% ar gyfer rhai'n codi llai na £300 o gymharu gyda 17% ar gyfer rhai'n codi £300-£499.99 a 19% ar gyfer rhai'n codi £500-£799.99.

Dylid nodi y gall y tariff a godir am uned amrywio yn ystod y flwyddyn, gan olygu fod symud rhwng y bandiau tariff, yn neilltuol yn ystod y misoedd yr haf pan gaiff cyfraddau uwch eu cyflwyno'n aml.

Defnydd yn ôl Graddiad

Cafodd cyfraddau defnydd unedau eu dadansoddi yn ôl eu haelodaeth o gynllun graddio Croeso Cymru. Mae Tabl 6-12 islaw'n dangos cyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd unedau yn ôl graddiad.

Ac eithrio unedau 2 seren, roedd perthynas gyffredinol rhwng graddiad seren a chyfraddau defnydd. Cofnododd rhai gyda graddiad 3 seren gyfradd gyfartalog defnydd blynyddol o 44% o gymharu â 53% ar gyfer rhai gyda 4 seren a 54% ymysg rhai gyda graddiad 5 seren. Cofnododd unedau heb raddiad gyfartaledd blynyddol o 57%, a chofnododd rhai gyda graddiad 2 seren gyfartaledd blynyddol o 47%.

Dylid nodi nad oedd gan unrhyw unedau yn arolwg eleni raddiad un seren. Hefyd, mae maint y sampl ar gyfer unedau 2 seren yn llai nag ar gyfer categorïau pellach felly dylid cymryd rhywfaint o ofal wrth drin y canlyniadau hyn. Yn ychwanegol roedd gan gyfran uwch o unedau yn y sampl raddiad seren yn 2012.

Tabl 6-14 - Defnydd Cyfartalog Misol Unedau yn ôl Graddiad (%)

	Graddiad Seren				
	Defnydd Unedau (%)				
	2 Seren	3 Seren	4 Seren	5 Seren	Heb raddiad
Ionawr	25	33	26	19	42
Chwefror	54	30	31	30	57
Mawrth	45	24	34	40	71
Ebrill	52	50	56	60	62
Mai	45	38	52	52	59
Mehefin	66	56	68	74	65
Gorffennaf	70	58	69	78	68
Awst	75	73	82	91	68
Medi	50	50	68	81	65
Hydref	44	35	54	62	43
Tachwedd	33	28	37	33	41
Rhagfyr	34	34	35	26	43
Cyfartaledd Blynyddol	47	44	53	54	57

Mae Tabl 6-12 uchod hefyd yn rhoi dadansoddiad o gyfraddau defnydd misol yn ôl graddiad. Roedd cyfraddau cyfartalog defnydd unedau'n gyffredinol uwch ar gyfer rhai gyda 4 a 5 seren yn ystod misoedd yr haf, yn arbennig yn Awst pan gofnododd yr unedau hyn gyfartaledd o 82% a 91% yn yr un drefn o gymharu gyda 75% ymysg y rhai gyda graddiad 2 seren a 73% ymysg y rhai yn y categori graddiad 3 seren. Cofnododd unedau 2 seren gyfartaledd uwch nag ar gyfer nifer o fisoedd y tu allan i brif dymor yr haf, yn neilltuoel ddechrau 2012 pan gofnodwyd cyfraddau o 25% a 54% yn Ionawr a Chwefror yn yr un drefn. Dylid nodi maint llai y sampl ar gyfer y categori hwn wrth ddehongli'r canlyniadau hyn.


Cartrefi Gwyliau Carafán a Chabannau

Yn yr adran yma rhoddwn adroddiad ar yr wybodaeth a gasglwyd gan weithredwyr yn cynnig carafanau sefydlog (a/neu gabannau) ar osod. Caiff mesur ei ddefnydd drwy gyfeirio nifer yr unedau a osodwyd yn ystod cyfnod yr adroddiad i'r cyfanswm sydd ar gael i'w gosod yn ystod y cyfnod hwnnw.

Defnydd Misol o Unedau

Mae Ffigur 7-1 islaw'n cyflwyno'r cyfraddau defnydd misol ar gyfer cartrefi gwyliau carafán yn 2012.


Ffigur 7-1 - Defnydd Misol Unedau - Cartrefi Gwyliau Carafán - 2012 (%)



Fel mewn blynyddoedd blaenorol, bu cynnydd sylweddol yn y defnydd unedau misol ar gyfer cartrefi gwyliau carafán rhwng Mawrth ac Ebrill yn 2012 (42 pwynt canran i 80% yn 2012). Mae hyn yn dangos pwysigrwydd cyfnod Gwyliau'r Pasg i'r sector llety yma. Roedd y Pasg yn 2012 yn gynnwys ym mis Ebrill ac mae'n debygol yr agorodd nifer fwy o safleoedd yn Ebrill i fanteisio ar gyfnod Gwyliau'r Pasg. Er 2009, cyfraddau cyfartalog defnydd unedau Mai i Orffennaf a fu'n fwyaf cyson, tra bu mwy o amrywiad yn y cyfraddau ar gyfer Medi.

Mae Ffigur 7-2 islaw'n cyflwyno'r cyfraddau defnydd ar gyfer 2007 i 2012 ar gyfer cartrefi gwyliau carafán. Fel y nodwyd yn yr adran fethodoleg uchod, casglwyd ffigurau defnydd yn 2012 yn ystod Mawrth - Hydref cynhwysol. Oherwydd nifer isel y ffurflenni defnydd a ddychwelwyd a dderbyniwyd ym Mawrth yn 2007 a 2008, dim ond ar gyfer cyfnod Ebrill - Hydref y cyflwynwyd canlyniadau misol ar gyfer y blynnyddoedd hyn.

Ffigur 7-2- Cyfartaleddau tymhorol - Cartrefi Gwyliau Carafán 2007 - 2012 (%)



Ar 84%, mae cyfartaledd Mai i Hydref 2012 ddau bwynt canran yn uwch na chyfradd gymharol 2011 o 82% ac yn parhau â'r cynnydd a gofnodwyd ers 2010 (lle cofnodwyd cyfradd o 75%). Mae hyn yn gwneud cyfartaledd Mai i Hydref 2012 yr ail uchaf a gofnodwyd ers 2007.

Mae'n bwysig nodi fod safleoedd sydd ar gau a meintiau sampl, yn arbennig y tu allan i brif dymor yr haf, yn amrywio ac felly y gall y cyfraddau defnydd misol cyfartalog yn ôl mis amrywio cryn dipyn rhwng blynnyddoedd.

Defnydd yn ôl Lleoliad - Arfordirol v Mewndirol

Dadansoddwyd data defnydd ar gyfer cartrefi gwyliau carafán mewn lleoliadau arfordirol a mewndirol. Mae Tabl 7-2 islaw'n dangos cyfraddau defnydd ar gyfer cartrefi gwyliau carafán yn 2012 ynghyd â data ar gyfer blaenorol, lle mae ar gael.

Tabl 7-2 - Defnydd Misol Unedau yn ôl Lleoliad - Cartrefi Gwyliau Carafan (%)

	Lleoliadau arfordirol Defnydd Carafanau Sefydlog (%)						Lleoliadau mewndirol Defnydd Carafanau Sefydlog (%)					
	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2007	2008	2009	2010	2011	2012
Mawrth	*	*	56	37	19	44	*	*	*	27	18	28
Ebrill	57	52	74	81	84	84	50	24	46	46	43	50
Mai	67	63	83	81	83	86	59	48	57	*	36	39
Mehefin	73	74	88	87	83	90	49	48	58	53	41	54
Gorffennaf	66	75	89	85	88	89	62	61	55	60	62	51
Awst	92	84	94	91	93	87	73	93	96	92	90	74
Medi	80	73	90	64	87	93	44	61	67	64	69	64
Hydref	56	36	85	46	70	79	43	41	46	*	58	*
Cyfartaledd	72	68	88	76	84	87	55	59	63	59	59	56
Mai-Hydref												

*Sampl <5

Dylid nodi fod maint y sampl, yn neilltuol ar gyfer cartrefi gwyliau mewn lleoliadau mewndirol, yn isel felly mae angen gofal wrth ddehongli'r canlyniadau hyn. Argymhellir y gwneir cymariaethau rhwng cyfartaledd Mai i Hydref.

Yn dilyn gostyngiad rhwng 2009 a 2010 (88% i 76%), mae cyfradd defnydd cyfartalog unedau Mai i Hydref wedi codi flwyddyn-ar-flwyddyn gyda chyfradd 2012 o 87% dri phwynt canran yn uwch na'r hyn a gofnodwyd yn 2011 ar gyfer unedau yn y lleoliadau hyn (84%). Mae'r gyfradd wedi dychwelyd i lefel debyg i'r hyn a gofnodwyd yn 2009 (88%) a dyma'r cyfartaledd ail uchaf ar gyfer Mai i Hydref ers 2007. Ar y llaw arall, roedd cyfartaledd Mai i Hydref ar gyfer unedau mewndirol yn 2012 (56%) dri phwynt canran yn is na chyfradd 2011 (59%) a'r ail isaf a gofnodwyd ar gyfer unedau yn y lleoliadau hyn ers 2007.

Defnydd yn ôl Graddiad

Dadansoddwyd cyfraddau defnydd ar gyfer safleoedd yn ôl eu haelodaeth o gynllun graddio Croeso Cymru. Mae angen rhywfaint o ofal wrth ddehongli canlyniadau oherwydd maint bychan y sampl, yn arbennig y tu allan i fisoedd brig Mai i Hydref.

Mae Tabl 7-3 islaw'n rhoi dadansoddiad o gyfraddau defnydd misol yn ôl graddiad, yn ogystal â'r cyfartaleddau Mai i Hydref yn ôl maint. Mae maint y sampl ar gyfer safleoedd 1-3 seren yn rhy fach i gael ei adrodd.

Fel mewn nifer o flynyddoedd blaenorol, cofnododd cartrefi gwyliau carafán heb eu graddio gyfartaledd uwch ym Mai i Hydref na rhai gyda graddiad o 4 neu 5 seren yn 2012. Yn 2012, roedd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd unedau ar gyfer 4-5 seren yn 58%, a'r cyfartaledd heb ei raddio ar gyfer Mai i Hydref yn 81%. Mae cyfartaledd Mai i Hydref ar gyfer unedau heb eu graddio yn gynydd ar y gyfradd a gofnodwyd yn 2011 (64%) oedd yn is na'r hyn a gofnodwyd yn 2010 (70%).

Oherwydd maint isel y sampl pan y'i dadansoddwyd yn ôl graddiad, fel mewn blynyddoedd blaenorol, cyfunwyd llety 4-5 seren. Dylid nodi nad oedd gan unrhyw unedau yn arolwg eleni raddiad un neu ddwy seren a dim ond tair uned oedd â graddiad pedair seren.

Tabl 7-3 - Defnydd Cyfartalog Misol Unedau yn ôl Graddiad - Cartrefi Gwyliau Carafan (%)

	Defnydd Unedau (%)	
	4-5 Seren	Heb raddio
Mawrth	21	*
Ebrill	53	*
Mai	52	*
Mehedin	66	54
Gorffennaf	58	88
Awst	68	87
Medi	57	*
Hydref	39	*
Cyfartaledd Mai – Hydref	58	81

*Sampl <5

Roedd y maint sampl ar gyfer eiddo heb ei raddio yn rhy isel ar gyfer ei ddadansoddi am nifer o fisoedd y tu allan i brif dymor yr haf. Roedd cyfradd gyfartalog defnydd unedau ar gyfer eiddo heb ei raddio yn uwch nag ar gyfer mis Awst (88% o gymharu gyda 58% am eiddo 4-5 seren), tra cofnododd eiddo 4-5 seren gyfradd gyfartalog uwch ar gyfer defnydd unedau ym Mehefin (66% o gymharu gyda 54% ar gyfer rhai heb raddiad seren).


Parciau Carafanau Teithio a Gwersylla

Mae'r adran yma o'r adroddiad yn rhoi sylw i barciau sy'n cynnig lleiniau i garafanau teithio a gwersylla. Mae'r elfen yma o'r arolwg yn cynnwys misoedd Mawrth i Hydref cynhwysol, gan adlewyrchu fod mwyafrif y safleoedd hyn ar gau yn ystod misoedd y gaeaf.

Defnydd Misol Unedau

Mae Ffigur 8-1 islaw'n cyflwyno cyfraddau defnydd tymhorol ar gyfer 2012 ar gyfer parciau carafanau teithio a gwersylla a lle'n bosibl, ganlyniadau ar gyfer 2007 i 2011. Oherwydd natur dymhorol y sector, ychydig iawn o ffurflenni a ddychwelwyd y tu allan i'r prif dymor twristiaeth. Gwneir sylwadau a chymariaethau yn yr adroddiad yma ar draws y tymor yn seiliedig ar y golofn yn dangos y ffurflen a ddychwelwyd ar gyfer Mai i Hydref.

Ffigur 8-1 - Defnydd Misol Lleiniau - Parciau Carafanau Teithio a Gwersylla 2007 - 2012 (%)



Bu cryn amrywiad dros y blynyddoedd yng nghyfartaledd Mai i Hydref ar gyfer parciau teithio. Cyfradd 2007 oedd 37%, ffigur a gynyddodd i 53% yn 2008 cyn gostwng i 39% yn 2009. Mae cyfraddau 2010 a 2011 o 48% yn 16 pwynt canran yn uwch na chyfartaledd 2012 o 32%.

Dylid nodi na wnaeth cyfranogydd gyda nifer fawr o safleoedd roi data yn 2012. Dylid rhoi ystyriaeth i feintiau sampl cymharol fach ar gyfer y sector yma, ynghyd ag amrywiadau yn y rhai sy'n rhoi data, wrth gymharu data.

Defnydd yn ôl Lleoliad – Arfordirol v Mewndirol

Cafodd data defnydd ei ddadansoddi ar gyfer parciau carafanau teithio a gweryslla mewn lleoliadau arfordirol a mewndirol. Mae Tabl 8-2 islaw'n dangos cyfraddau defnydd ar gyfer parciau carafanau teithio a gweryslla yn 2012 gyda data tueddiad 2007 - 2012.

Tabl 8-2 - Defnydd Misol Unedau yn ôl Lleoliad - Parciau carafanau teithio a gweryslla (%)

	Lleoliadau arfordirol Defnydd Teithio (%)						Lleoliadau Mewndirol Defnydd Teithio (%)					
	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2007	2008	2009	2010	2011	2012
Mawrth	*	*	9	10	8	14	*	*	15	6	14	6
Ebrill	28	21	25	26	28	21	28	30	22	22	47	17
Mai	37	50	40	31	26	21	29	56	29	36	49	20
Mehefin	37	47	41	49	36	36	30	59	26	39	56	31
Gorffennaf	46	60	61	51	48	47	34	62	28	64	64	32
Awst	72	76	80	70	66	65	45	68	38	68	64	41
Medi	33	36	38	37	29	25	28	48	19	48	49	24
Hydref	17	42	22	21	13	19	21	37	18	38	36	9
Cyf. Mai-Hyd	40	52	47	43	36	37	31	55	26	49	53	27

Dylid nodi fod meintiau sampl ar gyfer yr ardaloedd hyn mor isel fel bod angen gofal wrth eu dehongli.

Rhwng 2008 a 2011, gostyngodd cyfartaledd Mai i Hydref ar gyfer parciau teithio mewn ardaloedd arfordirol flwyddyn ar flwyddyn gyda gostyngiad cyffredinol o 52% i 36%. Ar 37%, roedd cyfradd Mai i Hydref parciau yn y lleoliadau hyn un pwynt canran yn uwch na chyfradd 2011 (36%). Mae'r cyfartaledd blynyddol ar gyfer parciau mewn ardaloedd mewndirol wedi amrywio mwy dros y blynyddoedd. Mae cyfradd 2012 ar gyfer y safleoedd hyn (27%) yn debyg i'r hyn a gofnodwyd yn 2009 ac yn 26 pwynt canran yn is nag a gofnodwyd yn 2011 (53%).

Dylid nodi na wnaeth cyfranogydd gyda nifer fawr o safleoedd roi data yn 2012. Dylid ystyried meintiau cymharol fach y samplau ar gyfer y sector yma, ynghyd ag amrywiadau yn y rhai a ddarparodd ddata, wrth gymharu data.

Defnydd yn ôl Graddiad

Cafodd cyfraddau defnydd ar gyfer eiddo eu dadansoddi yn ôl eu haelodaeth o gynllun graddio Croeso Cymru. Oherwydd maint bychan y sampl y tu allan i fisoedd brif yr haf o Fai i Hydref, cyflwynwyd yr wybodaeth islaw'n seiliedig ar y cyfnod cyflawn hwn.

Mae Tabl 8-3 yn dangos cyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd unedau yn ôl graddiad a chyfraddau defnydd misol yn ôl graddiad.

Yn wahanol i flynyddoedd blaenorol, o fewn cynllun graddio Croeso Cymru, safleoedd gyda graddiad 2-3 seren gofnododd y defnydd llain cyfartalog uchaf rhwng Mai a Hydref (40%), a chofnododd rhai gyda graddiad 4 seren gyfradd o 28%. Cofnododd safleoedd heb eu graddio gyfartaledd Mai i Hydref o 29%. Mae angen gofal wrth ddehongli canlyniadau oherwydd maint bychan y sampl a newidiadau sampl.

Dylid nodi nad oedd gan unrhyw eiddo yn arolwg eleni raddiad un seren neu bum seren.

Tabl 8-3 - Defnydd Cyfartalog Misol Unedau yn ôl Graddiad (%)

	Graddiad Seren Defnydd Unedau (%)		
	2-3 seren	4 seren	Dim graddiad
Mawrth	17	3	5
Ebrill	25	15	14
Mai	26	15	14
Mehefin	41	29	21
Gorffennaf	50	35	35
Awst	62	52	49
Medi	32	22	19
Hydref	17	6	20
Cyfartaledd Mai - Hydref	40	28	29

DS: Sampl 2 seren a 5 seren <5

Cofnodwyd y gwahaniaeth mwyaf rhwng safleoedd gyda graddiad 2-3 seren a rhai gyda graddiad 4 seren yng Ngorffennaf 2012, gyda chyfraddau cyfartalog defnydd lleiniau o 50% a 35% yn yr un drefn. Mae angen gofal wrth ddehongli canlyniadau oherwydd maint bach y sampl pan y'i dadansoddir ar y lefel yma.


Dylid nodi na wnaeth cyfranogydd gyda nifer fawr o safleoedd roi data yn 2012. Dylid ystyried meintiau cymharol fach y samplau ar gyfer y sector yma, ynghyd ag amrywiadau yn y rhai a ddarparodd ddata, wrth gymharu data.

Hostelau a Thai Bynciau

Defnydd Misol Unedau


Mae Ffigur 9-1 islaw'n cyflwyno defnydd misol gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer hostelau a thai bynciau rhwng 2009 a 2012.

Ffigur 9-1 - Defnydd Misol Gwelyau – Hostelau – 2012 (%)



Roedd cyfradd gyfartalog fisol defnydd gwelyau ar gyfer hostelau yn 15% yn Ionawr 2012. Cynyddodd y ffigur yma i frig o 68% yn Awst cyn gostwng i 26% yn Nhachwedd a Rhagfyr. Cyfradd gyfartalog defnydd gwelyau ym Mawrth 2012 oedd 39%, 11 pwynt canran yn uwch nag ar gyfer yr un mis yn 2011, tra cynyddodd cyfradd Mehefin o 53% yn 2011 i 64% yn 2012. Dros y blynyddoedd, mae cyfraddau cyfartalog defnydd gwelyau tuag at ddiwedd y flwyddyn wedi dangos mwy o gysondeb na'r rhai a gofnodwyd yn ystod misoedd yr haf, gyda'r cyfraddau a gofnodwyd ar gyfer Tachwedd a Rhagfyr yn yr ystod 22% - 26% ers 2009.

Cofnodwyd cynnydd calonogol yn ystod misoedd yr haf yn 2012. Rhwng 2009 a 2011, gostyngodd cyfradd gyfartalog defnydd gwelyau ar gyfer Gorffennaf flwyddyn-ar-flwyddyn o 68% i 62%, fodd bynnag, cynyddodd y gyfradd yma i 65% yn 2012. Cofnodwyd cynnydd hefyd ym Mehefin (11 pwynt canran i 64%) ac Awst lle cynyddodd cyfradd gyfartalog defnydd gwelyau o 61% yn 2011 i 68% yn 2012.

Ffigur 9-2 – Defnydd Cyfartalog Blynyddol Gwelyau - Hostelau – 2008-2012 (%)

Cyfradd gyfartalog flynyddol gwelyau ar gyfer hostelau yn 2012 oedd 43%, cynnydd o dri phwynt canran ar y gyfradd a gofnodwyd yn 2011 (40%) a'r uchaf a gofnodwyd gan sefydliadau yn y sector yma dros y pum mlynedd ddiwethaf.

Defnydd Tramor

Ar y ffurflen defnydd misol, gofynnir i weithredwyr hostelau¹ ddynodi'r nifer o westeion yn aros yn yr hostel bob nos a ph'un ai o'r Deyrnas Unedig neu o dramor y maent yn dod. Dylid nodi nad yw pob sefydliad yn rhoi'r wybodaeth yma - yn 2012, derbyniwyd 162 ffurflen gyda data tramor (43%).

Tabl 9-1 - Defnydd Tramor - Canran Nosweithiau Gwely (%)

	Canran nosweithiau gwely tramor				
	2008	2009	2010	2011	2012
Ionawr	23	28	17	31	14
Chwefror	11	10	21	21	16
Mawrth	12	17	10	12	17
Ebrill	10	12	9	10	9
Mai	11	11	13	10	10
Mehefin	6	14	9	9	8
Gorffennaf	21	21	18	21	17
Awst	13	14	14	14	13
Medi	19	13	11	11	15
Hydref	12	7	13	12	12
Tachwedd	16	18	14	7	13
Rhagfyr	13	16	16	19	12
<i>Cyfartaledd blynyddol</i>	<i>14</i>	<i>15</i>	<i>14</i>	<i>15</i>	<i>13</i>

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd cryn dipyn o amrywiad yn y canran o nosweithiau gwely tramor pan y'u dadansoddwyd yn ôl mis, gyda'r cyfrannau uchaf wedi eu cofnodi ym Mawrth (17%) a


¹ Ni ofynnir i weithredwyr tai bynciau wahaniaethu rhwng gwsteion o'r Deyrnas Unedig a thramor.

Gorffennaf (17%) 2012. Cafodd amseriad cyfnod Gwyliau'r Pasg lai o effaith ar ddefnydd tramor na'r gyfradd gyffredinol, gyda chyfradd Ebrill 2012 bron hanner yr hyn a gofnodwyd ym Mawrth yr un flwyddyn (17% a 9% yn yr un drefn). Mae lefelau defnydd tramor yn parhau i fod yn uchel am nifer o fisoedd yn y sector llety yma, gan ddangos fod hostelaau yn neilltuol o boblogaidd gydag ymwelwyr tramor.

Ers 2008, cofnodwyd yr amrywiad mwyaf yn y canran o nosweithiau gwely tramor ar gyfer misoedd Ionawr a Chwefror, misoedd pan mae llai o sefydliadau yn tueddu i fod ar agor ac felly bod maint y sampl yn debygol o fod yn is.

Dylid nodi fod canran y nosweithiau gwely tramor yn cyfeirio at nifer y nosweithiau a dreuliwyd gan westeion tramor fel canran o gyfanswm y nosweithiau gwely a werthwyd.

Ffigur 9-3 – Defnydd Gwely Misol Tramor a'r Deyrnas Unedig (DU) (%)



Mae Ffigur 9-3 yn dangos cyfraddau cyfartalog misol defnydd gwelyau ar gyfer gwsteion y Deyrnas Unedig a gwsteion tramor. Roedd cyfraddau misol defnydd gwelyau'r Deyrnas Unedig yn uwch ar gyfer pob mis, gyda chyfartaledd blyneddol o 43% o gymharu gyda 6% ar gyfer gwsteion tramor. Dylid nodi fod defnydd gwelyau tramor yn cyfeirio at nifer y nosweithiau gwely tramor fel canran o gyfanswm nifer y lleoedd gwely sydd ar gael.

Defnydd yn ôl Lleoliad - Hostelau

Dadansoddwyd data defnydd ar gyfer hostelau mewn lleoliadau arfordirol a mewndirol. Mae Tabl 9-2 islaw'n dangos cyfraddau defnydd ar gyfer hostelau yn y ddau leoliad.

Tabl 9-2 - Defnydd Misol Gwelyau yn ôl Lleoliad: Hostelau a Thai BynCIAU (%)


	Lleoliadau arfordirol	Lleoliadau mewndirol
	Defnydd Gwelyau (%)	Defnydd Gwelyau (%)
Ionawr	15	14
Chwefror	26	31
Mawrth	37	41
Ebrill	52	48
Mai	43	48
Mehefin	63	64
Gorffennaf	68	62
Awst	73	64
Medi	41	44
Hydref	39	44
Tachwedd	21	28
Rhagfyr	22	29
Cyfartaledd Mai-Hydref	55	54
Cyfartaledd Blynnyddol	42	43

Cofnodwyd lefelau tebyg o ddefnydd bob blwyddyn ar gyfer lleoliadau arfordirol a hefyd fewndirol (42% a 43% yn yr un drefn), gyda sefydliadau arfordirol yn cofnodi cyfraddau uwch yn ystod prif dymor yr haf a lleoliadau mewndirol yn gyffredinol yn cofnodi cyfraddau uwch yn ystod y misoedd ysgwydd. Dylid nodi fod maint y sampl yn fychan ac felly dylid rhoi ystyriaeth i hyn wrth ddadansoddi'r canlyniadau.

Defnydd yn ôl Graddiad

Dadansoddwyd cyfraddau defnydd ar gyfer eiddo yn ôl eu haelodaeth o gynllun graddio Croeso Cymru. Mae Ffigur 9-5 islaw'n dangos cyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd unedau yn ôl graddiad.

Ffigur 9-4 - Defnydd Cyfartalog Blynyddol Gwelyau yn ôl Graddiad - Hostelau a Thai Bynciau (%)



Fel gyda sectorau llety eraill, roedd perthynas gadarnhaol yn parhau rhwng lefel y graddiad a lefel defnydd ar gyfer y sector Hostelau yn 2012. Cofnododd sefydliadau yn y categori graddiad 4-5 seren uwch ddefnydd cyfartalog blynyddol ar gyfer defnydd gwelyau o 45%, yn is nag yn 2011 (48%) a dri phwynt canran yn uwch na'r gyfradd a gofnodwyd ar gyfer rhai gyda graddiad 2-3 seren (42%). Fodd bynnag, cofnododd sefydliadau yn y categori graddiad is gynnydd yn eu cyfradd gyfartalog defnydd blynyddol ar gyfer gwelyau, a gynyddodd o 39% yn 2011 i 42% yn 2012.

Dylid nodi nad oedd gan unrhyw eiddo yn arolwg eleni raddiad 1 seren. Hefyd, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canlyniadau oherwydd maint bach y sampl.

Atodiad 1: Gwestai

Atodiad 1a - Gwestai: Defnydd Gwelyau - cyfartaleddau misol (%)

	Defnydd gwelyau										
	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012
Ionawr	23	25	24	25	24	26	25	26	26	27	26
Chwefror	33	33	33	33	35	35	34	33	35	35	34
Mawrth	37	36	36	37	35	37	38	34	36	38	42
Ebrill	37	43	41	41	44	44	40	42	45	45	44
Mai	45	48	48	46	49	50	49	46	47	46	45
Mehefin	50	47	48	49	50	51	47	48	50	49	50
Gorffennaf	51	52	53	52	56	53	52	52	54	50	50
Awst	58	59	56	56	60	60	55	56	57	52	58
Medi	48	50	51	51	55	54	51	50	52	49	54
Hydref	42	43	42	42	45	45	45	45	45	45	45
Tachwedd	35	34	35	34	37	38	38	36	35	38	37
Rhagfyr	30	31	33	32	34	34	33	34	29	31	37
Cyfartaledd	41	42	42	42	44	44	43	42	43	42	44
Blynyddol											

Atodiad 1b – Gwestai: Defnydd Gwelyau 2012 (%)

	Defnydd gwelyau misol 2012												
	Ion	Chw	Maw	Ebr	Mai	Meh	Gor	Awst	Medi	Hyd	Tach	Rha	Avg
Cymru Gyfan	26	34	42	44	45	50	50	58	53	45	37	37	44
Gogledd	29	36	47	50	51	58	56	68	58	48	43	40	49
Canolbarth	26	30	37	42	45	54	52	56	58	45	34	25	42
De Ddwyrain	27	35	43	39	42	42	44	51	49	44	34	39	41
De Orllewin	19	30	36	41	43	48	47	58	51	39	27	31	39
1-3 ystafell	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
4-10 ystafell	25	29	39	43	45	53	51	60	53	35	28	31	41
11-25 ystafell	22	27	41	40	41	47	46	57	49	39	29	27	39
26-50 ystafell	28	37	43	47	45	55	50	59	55	46	41	42	46
51-100 ystafell	25	37	42	48	47	51	50	58	56	51	44	36	45
Over 100 ystafell	30	38	45	41	47	47	51	59	54	49	40	42	46
Dan £20	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
£20-£29.99	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
£30-£39.99	19	29	39	49	43	50	45	50	38	33	38	37	41
£40-£49.99	26	32	43	39	46	50	48	70	61	55	29	25	42
£50-£59.99	29	40	43	48	48	56	48	62	60	45	39	35	45
£60 a throsodd	26	34	43	44	46	49	51	59	54	46	37	38	44
Heb raddiad	25	35	38	38	37	46	46	50	45	36	25	38	39
1 seren	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
2 seren	30	35	47	48	46	59	55	65	64	44	42	44	48
3 seren	25	32	39	42	44	48	47	57	52	47	34	30	42
4 seren	26	33	43	49	50	55	54	62	56	48	43	39	46
5 seren	35	47	63	65	61	*	60	69	67	*	*	*	59
Dinas/tref fawr	29	38	46	40	44	44	48	54	52	46	38	43	44
Gwledig/pentref	24	31	38	44	44	50	49	59	54	41	28	30	41
Glan môr	27	36	45	47	46	57	53	64	56	45	41	38	47
Tref fach	22	29	35	43	48	47	47	54	51	48	37	28	41

* Maint y sampl yn rhy fach i wneud dadansoddiad

- Heb dderbyn ffurflenni

Atodiad 1c - Gwestai: Defnydd Ystafelloedd 2012 (%)

	2012 Defnydd misol ystafelloedd												
	Ion	Chw	Maw	Ebr	Mai	Meh	Gor	Awst	Medi	Hyd	Tach	Rha	Avg
Cymru Gyfan	40	49	58	57	63	66	67	72	71	60	52	49	59
Gogledd	41	51	60	61	65	73	69	77	74	59	57	50	62
Canolbarth	32	39	49	53	59	66	64	67	72	59	46	32	54
De Ddwyrain	46	56	65	58	66	62	67	70	71	63	53	54	61
De Orllewin	28	40	44	49	49	61	63	69	64	55	37	44	50
1-3 ystafell	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
4-10 ystafell	31	33	41	46	54	64	63	68	65	47	39	40	49
11-25 ystafell	34	42	53	50	51	60	58	64	63	49	38	37	51
26-50 ystafell	46	52	60	61	64	70	64	72	73	60	57	55	62
51-100 ystafell	41	56	61	67	69	69	73	78	77	71	63	54	65
Dros 100 ystafell	44	55	65	56	69	67	73	75	76	66	60	54	64
Dan £20	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
£20-£29.99	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
£30-£39.99	25	23	45	57	49	62	54	56	49	40	55	46	49
£40-£49.99	45	58	55	48	61	67	64	79	74	67	44	41	58
£50-£59.99	40	53	57	59	60	68	60	70	71	58	49	45	57
£60 a throsodd	41	49	60	59	65	67	70	74	74	62	53	51	61
Heb raddiad	37	50	55	50	51	61	59	60	59	48	39	46	52
1 seren	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
2 seren	43	49	64	62	64	73	72	76	81	61	59	60	64
3 seren	41	48	57	57	62	67	64	72	72	63	50	43	58
4 seren	40	50	57	61	65	67	73	76	73	62	56	51	60
5 seren	52	58	75	65	81	*	82	85	87	*	*	*	77
Dinas/tref fawr	47	58	68	57	66	63	69	72	74	68	59	57	64
Gwledig/pentref	37	44	48	53	55	63	65	67	67	52	41	41	53
Glan môr	38	48	59	59	61	69	65	74	71	56	52	49	59
Tref fach	39	47	53	60	69	71	71	74	74	69	59	44	61

* Maint y sampl yn rhy fach i wneud dadansoddiad

- Heb dderbyn ffurflenni

Atodiad 2: Tai Llety a Sefydliadau Gwely a Brecwast

Atodiad 2a – Tai llety/sefydliadau gwely a brecwast: Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd Gwelyau - Cyfartaleddau Misol (%)

	Defnydd gwelyau										
	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012
Ionawr	15	13	14	17	12	12	11	13	10	10	10
Chwefror	19	20	21	21	20	20	18	18	17	16	14
Mawrth	27	23	21	27	20	21	24	20	20	19	21
Ebrill	25	37	36	30	35	33	25	31	31	33	29
Mai	36	43	41	39	41	40	38	37	34	33	33
Mehefin	48	41	47	47	46	43	36	39	40	39	40
Gorffennaf	51	50	54	53	56	47	45	46	42	43	40
Awst	62	63	64	64	62	57	52	51	47	53	46
Medi	43	42	46	48	45	43	38	41	39	38	38
Hydref	32	30	34	33	32	31	30	30	31	25	25
Tachwedd	22	21	20	17	19	20	17	18	18	16	15
Rhagfyr	17	17	18	14	19	15	15	15	13	10	10
Cyfartaledd	34	34	35	35	34	33	29	30	29	28	27
Blynyddol											

Atodiad 2b – Tai llety/sefydliadau gwely a brecwast: Defnydd Gwelyau 2012 (%)

	Defnydd misol gwelyau 2012												
	Ion	Ch	Maw	Ebr	Mai	Me	Gor	Aws	Me	Hyd	Tach	Rha	Avg
Cymru Gyfan	10	14	21	29	33	40	40	46	38	25	15	10	27
Gogledd	7	13	17	27	31	39	37	46	37	25	14	10	25
Canolbarth	10	12	21	27	33	37	37	40	30	19	12	9	25
De Ddwyrain	16	16	23	22	25	30	28	30	29	20	16	10	23
De Orllewin	8	15	22	37	40	51	54	63	53	34	17	11	35
1-3 ystafell	8	12	16	25	29	34	35	42	32	18	12	10	23
4-10 ystafell	9	15	22	31	35	43	43	49	42	28	16	10	29
11-25 ystafell	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	-	*
26-50 ystafell	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	-	-	*
51-100 ystafell	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Dros 100 ystafell	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Dan £20	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
£20-£29.99	9	10	17	20	18	21	24	32	26	16	18	18	19
£30-£39.99	11	16	22	30	33	41	43	46	38	27	16	9	28
£40-£49.99	8	13	21	29	37	43	41	42	41	24	13	10	29
£50-£59.99	*	*	*	29	*	42	51	61	42	17	*	*	*
£60 a throsodd	11	12	20	29	33	41	31	*	*	*	*	*	*
Heb raddiad	*	*	*	14	22	32	25	32	18	13	*	*	17
1 seren	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
2 seren	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
3 seren	9	10	19	22	24	33	33	37	29	17	15	11	23
4 seren	11	16	23	34	39	45	48	51	46	29	16	10	31
5 seren	8	13	19	31	35	46	39	64	44	25	15	9	28
Dinas/tref fawr	23	29	27	32	29	31	32	43	40	31	*	*	32
Gwledig/pentref	9	12	19	28	30	39	39	46	36	24	15	9	26
Glan môr	4	12	19	29	41	52	53	62	44	17	10	8	30
Tref fach	14	16	29	32	37	40	41	37	39	33	18	11	30

* Maint y sampl yn rhy fach i wneud dadansoddiad

- Heb dderbyn ffurflenni

Atodiad 2c – Tai llethy/sefydliadau gwely a brecwast: Defnydd Ystafelloedd 2012 (%)

	Defnydd misol ystafelloedd 2012												
	Ion	Ch	Maw	Ebr	Mai	Me	Gor	Aws	Me	Hyd	Tach	Rha	Avg
Cymru Gyfan	14	18	28	36	42	48	49	53	48	32	20	13	34
Gogledd	9	19	26	32	38	45	44	56	44	30	18	13	31
Canolbarth	18	17	29	36	44	48	44	43	40	25	18	13	32
De Ddwyrain	22	21	32	32	35	40	40	39	41	27	23	13	31
De Orllewin	10	18	25	41	50	58	62	71	62	43	22	14	40
1-3 ystafell	12	15	22	31	35	41	42	45	41	25	17	13	29
4-10 ystafell	12	20	30	38	45	52	52	58	52	36	22	13	36
11-25 ystafell	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	-	*
26-50 ystafell	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	-	-	*
51-100 ystafell	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Dros 100 ystafell	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Dan £20	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
£20-£29.99	14	14	24	25	25	25	44	36	40	22	24	22	28
£30-£39.99	16	21	28	37	43	52	52	55	50	36	22	12	35
£40-£49.99	9	13	30	37	48	51	48	52	50	30	17	13	35
£50-£59.99	*	*	*	31	*	47	56	67	52	21	*	*	*
£60 a throsodd	15	18	33	35	40	49	36	*	*	*	*	*	*
Heb raddiad	*	*	*	19	27	33	24	27	24	18	*	*	19
1 seren	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
2 seren	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
3 seren	14	18	27	29	34	42	46	49	44	26	21	15	32
4 seren	16	19	29	40	48	54	55	57	56	38	23	14	37
5 seren	10	18	27	35	42	52	46	67	47	27	16	10	32
Dinas/tref fawr	27	36	41	43	42	43	58	61	56	36	*	*	45
Gwledig/pentref	12	16	25	33	38	44	44	50	45	30	19	13	31
Glan môr	4	15	24	34	49	62	60	67	53	24	13	9	36
Tref fach	26	27	45	47	52	56	53	50	56	48	28	16	43

* Maint y sampl yn rhy fach i wneud dadansoddiad

- Heb dderbyn ffurflenni

Atodiad 3: Hunanddarpar

Atodiad 3a – Cyfartaleddau Bythynnod a Fflatiau Hunanddarpar Annibynnol (%)

	<=£299.99		£300 - £499.99	
	Defnydd Uned (%)	Sampl	Defnydd Uned (%)	Sampl
Ionawr	27.1	44	17.3	38
Chwefror	35.6	49	33.3	49
Mawrth	35.3	33	37.4	65
Ebrill	60.1	19	51.5	59
Mai	50.2	19	51.1	54
Mehefin	78.7	10	57.5	49
Gorffennaf	-	-	69.1	33
Awst	70.8	7	80.0	33
Medi	66.5	17	70.8	53
Hydref	48.7	23	51.1	56
Tachwedd	33.2	36	31.8	33
Rhagfyr	29.8	13	30.6	26
<i>Cyfartaledd Mai - Hydref</i>	<i>57.9</i>	<i>13</i>	<i>61.2</i>	<i>46</i>
<i>Cyfartaledd Ebrill - Hydref</i>	<i>58.4</i>	<i>14</i>	<i>59.6</i>	<i>48</i>
<i>Cyfartaledd Ionawr - Rhagfyr</i>	<i>42.1</i>	<i>23</i>	<i>49.4</i>	<i>46</i>
	£500 - £799.99		£800 +	
	Defnydd Uned (%)	Sampl	Defnydd Uned (%)	Sampl
Ionawr	18.7	11	24.1	2
Chwefror	29.7	11	-	-
Mawrth	20.2	12	26.7	1
Ebrill	63.3	23	46.8	2
Mai	38.3	15	54.8	1
Mehefin	75.3	32	70.3	7
Gorffennaf	69.0	38	64.0	19
Awst	84.2	42	90.6	13
Medi	61.8	17	43.6	1
Hydref	52.4	15	42.2	1
Tachwedd	25.9	7	-	-
Rhagfyr	25.1	28	36.0	5
<i>Cyfartaledd Mai - Hydref</i>	<i>68.7</i>	<i>27</i>	<i>71.5</i>	<i>7</i>
<i>Cyfartaledd Ebrill - Hydref</i>	<i>68.0</i>	<i>26</i>	<i>70.0</i>	<i>6</i>

<i>Cyfartaledd lonawr - Rhagfyr</i>	54.4	21	63.7	4
-------------------------------------	------	----	------	---